

Gwefan Cymru-Catalonia kimkat.org

Teitl: Gwas O War Llandeilo

Awdur: Cynwal

Ar ffurf fformat dogfen gludadwy (FDG / PDF).

Nofel a ymdangosodd ym Mhapur Pawb rhwng 16-10-1897 a 22-01-1898
(15 rhan).

Ar gael ar Bapurau Newydd Cymru Arlein (Llyfrgell Genedlaethol
Cymru).

Statws Hawlfraint: Anhysbys

....

CYNNWYS:

Rhan I / Pethau Amgylchiadol / 16 Hydref 1897

Rhan II / Amgylchiadau Teuluaidd / 23 Hydref 1897

Rhan III / Dechrau Ar Fy Ngwasanaeth / 30 Hydref 1897

Rhan IV / Y Frecwast Gyntaf / 6 Tachwedd 1897

Rhan V / Gweithred Anghyfreithlon / 13 Tachwedd 1897

Rhan VI / Mishtir A Mishtres / 20 Tachwedd 1897

Rhan VII / Yr Euog Yn Ffol / 27 Tachwedd 1897

Rhan VIII / Troi Dalen Newydd / 4 Rhagfyr 1897

Rhan IX / Mewn Twymyn / 11 Rhagfyr 1897

Rhan X / Y Gwas Newy' / 18 Rhagfyr 1897

Rhan XI / Gofidie Caru / 25 Rhagfyr 1897

Rhan XII / Dafy' A Mari / 1 Ionawr 1898

Rhan XIII / Yn Was Priodas / 8 Ionawr 1898

Rhan XIV / Crasfa! / 15 Ionawr 1898

Rhan XV / Gadel Y 'Lad Am Y Gweithe / 22 Ionawr 1898



(delwedd 4289)

Gwas O War Llandeilo / Rhan I / Pethau Amgylchiadol / 16 Hydref 1897
/ Papur Pawb

GWAS O WAR

LLANDEILO

I.—PETHAU AMGYLCHHADOL.

Anwil Mishtir Golygydd,—Yr odw i yn caul difershwn fowr, ac adeladeth fowr iown hefyd, wrth ddarllen eich papur, achan, yn enwedig wrth ddarllen haneson dynon sy wedi scyrfenu 'u hanes 'u hunen, fel bydde Shoni Hoi, Silly Bill, a'r crwt hyny'n gneud, widdoch.

(Yr odw i yn clowed swm y gwirionedd yn 'u haneson nhwy. Ond pwy ryfedd, achan? Y nhwy 'u hunen oudd yn gw'bod beth oudde nhwy, a nhwy oudd yn scyrfenu, ac felly, achan, nhwy 'u hunen all'se scyrfenu ore. Eto, yr odw i yn credu hyn hefyd, achan, y dyle pob dyn scyrfenu 'i hanes 'i hunan i rhwy papur, er mwyn i ddynon erill mwn gwledydd erill gaul gw'bod shwt rai y'n nhwy, yn lle bod dynon erill yn gorffod gneud hyny wedi iddyn nhwy farw, ac wrth neud, yn scyrfenu lot o gelwidde rhy adyn-

sherus iddi credu.

Wrth styried peth felna, a pheth erill, yr odw i wedi penderfynu scyrfenu hanes 'y mowyd yn hunan, achan, a'i hala fe i chi, i chi gaul 'i gouddi e' yn "Papur Pawb," os byddwch chi gystlad a gneud hyny.

Wel, ta pun ne' couddwch chi e' ne beido, achan, yr w i wedi penderfynu 'i scyrfenu e'; ac fe gewch chi wel'd eto y bydd o'n hanes go daliedd erbyn dibeno i ag e', ac fe fydd digon o ddynon erill yn falch iddi gaul e iddi papure nhwy.

Wel, beth bema am hyny, yr odw i'n rhoi'r cynyg cynta arno i chi, achan, ta beth, achos yr w i'n ych gwel'd chi wedi rhoi cefnogeth fowr i'r rhai sy' wedi scyrfenu hanes 'u bowyd o mla'n i, ac achos yr w i'n creduna fyddwch chi ddim yn ots i fine, all dyn taliedd byth fod yn annhaliedd, widdoch.

Dyna fi nawr wedi gneud digon o ragymadrod gwela i; felly, dyma fi'n mynd i ddechre gweud wrthoch chi pwy a pheth odw i, ynte? Ganwyd fi ar y ddoudegfed o Fowrth yn y flwyddyn ——. Wel, na, weda i ddim pwy flwyddyn, achan, lle bod chi'n 'i gouddi e'; ta chi'n 'i gouddi e', wyddoch, mi

fydder merched yn dwad i w'bod y'n oudran
i'n gowir, a dw i ddim am iddyn' nhwy gaul
gw'bod hynny, achos dw i ddim wedi priodi
eto.

Dodw i ddim yn gwadu a gweud celwidde
am y'n oudran, fel mau'n nhwy yn iwsa
gweud, trwy weud ta ugen y'n nhwy pan bo
nhwy'n ddeg ar ugen, o ta pump ar ugen y'n
nhwy pan bo nhwy'n ddougen.

Na, achan, mau'n well gen i beido gweud
dim am y'n oudran, na myn'd i olchi rhwy
lot fowr o gelwidde beiti ddo. Well, yn
Bryngwndwn Bach, bid fynd, y ganed a
maged fi, nes own i'n grwt diogel. Lle bach
i gadw dwy fuwch yw Bryngwndwn Bach,
sy'n ffinio a Bryngwndwn Mowr, ar lan
Towy, o w'ar Landeilo, ac yn caul ei gadw
er cyn cof gen i gen Nwncwl John a Nanti
Liza.

Mau Bryngwndwn Mowr yn fferem fowr
iawn, yn ddigon o le i gadw dounaw buwch
o wartheg, a pobpeth arall yn atebol i hynny.
Mau rhai hen bobol ffor' hyn yn gweud fod
Bryngwndwn Bach wedi bod, ys blynydde
mowr iawn yn ol, yn agos cwmint o le a

Bryngwndwn Mowr, ond i fishtir y tir ddodi
tir Bryngwndwn Bach bron i gyd at Bryn-
gwndwn Mowr, o ddialedd at y dyn oudd
yn byw yno'r amser hyny, am na byse fe
yn voto dros iddi fishtir gaul myn'd i'r Sen-
edd.

Wel, dwn i ddim pun ne wir ne gelwidd
yw 'yna, achan; i glowed e' netho i, ac
roudd e' wedi digwidd flynydde mowr iawn
cyn 'y ngeni i, os yw e' gwir.

Ta pun ne gwir ne gelwidd yw e', achan,
fi weda i hyn—roudd bai mowr sobor ar y
ffarmwr hyny na fyse fe yn voto dros i
fishtir gaul myn'd i'r Senedd, a fynte'n caul
byw miwn fferem felny o dano. Oudd e'
ddim, medde chi?

Oudd weda i, a dw i'n hidio dim ffeuen
pwy ddigio wrtho i am 'ny.

Wel, ys gwedes i gyne, mau blynydde mowr
iawn odd'ar hyny, ac mau'r ffarmwr a'r
mishtir hyny wedi myn'd i ffordd yr holl
ddeuar ych dou, a'u plant ar 'u gol nhwy
hefyd.

Un ferch oudd gen y mishtir hyny, medd nhwy, ac fe briododd hono a gwr bonheddig mowr o Louger o'r enw Seweier Langraber; mab iddi nhwy, mau'n debyg yw'r seweier presennol. Gwr bonheddig neis yw e' hefyd; dyw e'n busneso dim yn fusnes y deiladon at all; mau e'n gadel rhwng i stiwart a nhwy, mau e' wrth i ddeleit stil gyda'i gwn hela, ne'i gyffyle rhasis, ne yn pysgota: a dyw e' nemor byth iddi wel'd ond gyda rhwybeth felna.

O! ie, wirione, gwr bonheddig reual sacrt yw'r seweier. Amser own i'n was yn Bryngwndwn Mowr, yr odw i'n cofio iddo ddowod yno unweth i hela; ac wedi iddo fe gerod dros y tir i gyd, fe ddoeth i'r ty gyda Mish-tir Lewis i gaul tamed o fwyd; ac wrth fadel, fe roddodd bobo gysan i mishtres, Miss Maggi a Miss Jane, a phobo swlt i Master Willie a Master Tom, a fe ysgydwodd law a mishtir, a chododd e' ddim yn y rhent hefyd wed'yn ar ol hyny.

Dyna chi, nid pob un neise 'yna, echan. Well, i ddowad yn nes gadre eto, fel y gwedes i o'r bla'n, yn Bryngwndwn Bach y ganed ac y maged fi; ond 'fe fu amgylchiade fy

I O'r diarn, yn dryngwiroddu bach y gared
ac y maged fi; ond fe fu amgylchiade fy
nghenedigeth yn ddirgelweh i mi am fyn-
yddde mowr, ac felly ca'nt fod i chithe, achan,
am y presennol. Magwyd fi gan Nwncwl
John a Nanti Liza, ac yr ouddwn wedi tyfu
fyny'n grwt diogel cyn i fi wbod dim nac
data a mami ouddent; ond data a mami w
i'n galw nhwy eto stil, widdoch, achos arfer.

Pan yn grwt beiti saith mlwydd oud ces i
wbod gynta pwy oudd mami, ond ches i
ddim gwbod amser wed'yn pwy oudd data;
a phob tro bysw'n i'n gofyn i nanti pwy oudd
e', yr ateb gewn i fydde, "Rhwun digon
drwg yw e, a rhwun na chaiff e' ddim narw
fel dyn arall yw e' hefyd." Fyddde dim iws
i fi holi dim rhagor na hyna byth, achos
roudd hi'n myn'd yn grac ma's o natur wrth
son am dano.

Fe fu farw fy mami dreuan ar 'y ngened-
igeth i, a dyna ffor' ces i 'y magu gen nwnawl
a nanti.

Yr oedd mami a nanti yn ddwy whar.
Yr oedd Nwncwl John wed'yn yn gender
iddi nhwy; yr oudden nhwy yn blant y
ddou—mami a nanti yn ferched i John
Jones, a nwnawl, ynte, yn fab i Thomas
Jones.

Fy enw bedydd i yw John Jones; fi geso i y'n nodi felny i gaul bod run enw a nacu data a mami, widdoch.

Yr oeddwn i slower dydd yn falch sobor ar yr enw hefyd, oblegid rown i'n y ngwel'd i run enw a nacu a nwnawl, John Jones, Jones y Lion, Jones Ca'r Defed, Jones y ffeirad, a Jones gweinidog Capel Ca' Pant, ac amryw erill o ddynon mowr allwn i enwi.

Yr oeddwn i'n credu, flynydde mowr yn ol, mod i'n lwcus iawn fod shwd enw wedi ddodi arna i; ne, yn hytrach, fod rhwy lwc fowr yn dilyn yr enw yna, ac mai dyna'r achos fod cwmint yn galw'u hunen yn John Jones. Dw i ddim yn credu pethe felna nawr, a dw i hefyd ddim yn folon ta John Jones mau neb yn 'y ngalw i; gwell gen i i bobun 'y ngalw i wrth y'n llysenw, Shoni Bryngwndwn, achos mau dou John Jones yn yr un ty a fi, sef nwnawl a'i fab, widdoch. Oni byse i fi gaul myn'd yn was at Mr Lewis, i Bryngwndwn Mowr, fi fyswn i erbyn hyn ddim yn gwbod pwy fyswn i, a fyse neb arall yn gwbod dim hefyd, a fi fyse hyn yn beth sobor iawn.

(I'w barhau.)

.....

GWAS O WAR

LLANDEILO

II.—AMGYLCHIADAU TEULUAIDD.

Anwil Mishtir Golygydd,—Mau gen i ddiolch mowr iawn i chi, achan, am gymryd at gouddi'n hanes i yn ych papur. Yr own i'n credu o'r dechre y gneise chi, a dyna shwt own i yn 'i hala fe i chi'n gynta.

Nawr, gan i chi fod mor daliedd ata i, fi dreia ine ngore i fod yn daliedd atoch chithe.

Fe dreia i hala penod i chi erbyn pob wythnos hyd nes dilbeno i 'r hanes i gyd; ond os ffeula i, rw i am i chi baso heibo i fi, achos, wedi ffeulu bydda i oblegid am-gylchiade.

I ddowad at yr hanes eto, amser galed iawn weles i wrth y magu; ond dodw i'n achwyn dim am hyny, serch hyny; achos, fi geso i shar deg o'r byd gwan oudd ar Nwnewl a Nanti.

Byd gwan oudd arnyn nhwy, achos, roudd ganddyn nhwy bac mowr o blant i hunen; roudd ganddyn nhwy wyth, a fine, dyna naw.

Labwr ameuthyddol oudd (Nwnewl wrth i grefft, ac o ddoudddeg i bymtheg swllt yr wythnos enille fe fwya, ond yn amser y c'nuafe; roudd e'n enill rhywbeth yn rhagor wrth weitho ar y c'nuafe.

Ond gadewch i fod e'n enill punt yr wythnos yn yr amser hyny, byd gwan fyse hyny wedyn rhwng un ar ddeg o deulu. Y gwir am dani, achian, nid ar gyflog Nwnewl i gyd roudden ni byw.

Roudd Nanti, hefyd, yn enill llower yn y flwyddyn trwy wei sane i'r ffarmwrs oudd o beiti.

Heblaw hyny, achian, roudd gwragedd ffarmwrs y gymdogeth yn danfon 'u morwnon nawr ag yllchweth a rhywbeth bach yn 'u ffedoge i Nanti'n barhaus.

Fi ddeise un folle a chosyn bach, un arall a swmpyn da o flawd cyrch, i ni gaul gneuthir shican bwdran, un arall wedyn a swmpyn o fenyn, ne dipyn o gig moch, ne rhywbeth o'r ardd na fyse gyda ni iddi ~~canf~~.

gaul.

Felny roun ni'n shifto 'n oilyn bach i gaul digon o bethe i ddodi yn y'n bolie stil.

Eto, roud d gwagedd y ffarmwrs hyn yn hala moy'n Nanti weithe i helpu tipyn arnyn nhwy gyda'r peth hyn a'r peth arall; a phob tro y bydde hi'n myn'd felny roud hi'n siwr o gaul rhwy ddillade bach i ddowad nol yn i ffedog genti i ni stil—dillade ar ol 'u planti nhwy widdoch. Roud hi weithe'n caul ambell i hen bilyn hamsw'n i'r byd.

Gweles hi un tro, hefyd, yn caul hen got fowr hyfrydol i Nwncwl, gen gwr Nant-yr-Allt.

Hen got galwe fe hi, nid hen got mohoni, cot newv' dim pin gwaeth oudd hi, wedi myn'd rhy fach iddo fe oudd hi, oblegid roud e'n wedi myn'd bron rhy dew i gyffro; ond ys oudd hi fach iddo fe, roud hi'n ddigon o faint i Nwncwl a Nanti gyda'u gily'.

Nid pethe felna gele hi fynycha, dillade i ni, fel plant, gele hi bron stil.

Weithe fi fydde rheiny yn y'n fitio ni'n o flew, a phrydie erill fi fydden lower gormod; ond trwy nad oudd Nanti yn ddim

llower o wnyddes, ac yn gwybod dim am ffashwn bwc, roun ni'n gorfod gwishgo'r dillade hyny i ben fel roud Nanti'n 'u caul nhwy.

Felny, roud golwg ddigri sobor arno ni weithe; ond brydie erill ni fydden yn dryched yn o daliedd.

Fel roud y fywolieth, felly, hefyd, roud y gwishgad; os na cheiso i, wrth y magu, ddillade cran, nol ffashwn y trefy' mowr, fi geiso i ddigon o ddillade, a digon o ffashwn ynddi nhwy i nghadw i gynhes; ac roud hyny'n llawn ddigon i grwt bach fel y fi yn caul 'i fagu yn y 'lad.

Dalla i ddim rhico, fel mau Rhys Lewis yn rhico yn 'i lyfyr, y mod i wedi caul kolej a dysgeidieth fowr eto.

Roud Nwnewl a Nanti'n rhy glawd i dalu am denyn nhwy i fi na'u plant 'u hunen; a douden nhwy hefyd ddim yn credu miwn llower o ddysgeidieth; oblegid, medde nhwy, fod y Beibl yn gweud yn bendant fod gormod o ddysgeidieth yn gyru dyn yn ynyd.

Dyna'r achos, medde nhwy, oudd fod Dr Wmffres yn gwadu'r Beibl. Roudde e wedi caul gormod o ddysgeidieth nes roudde e'n ynyd, ac roudde e'n gwadu'r Beibl.

Felna, achan, trwy drugaredd, cheiso i ddim gormod o ddysgeidieth; dim ond tapyn o Ysgol Sul yn Capel Ca Pant, i ddysgu darllen y Beibl; ac roudde hyny'n ddigon; oblegid, rown i yn wyth mlwydd oud yn gallu darllen y Meibl fel ffeirad.

Weddi i fi fyn'd yn was i Bryngwndwn Mowr y dysges i scyrfenu. Miss Maggie Lewis nysgodd i gynta i dor'r llythrene; a hi roddodd slat a phensil i fi atny; a hi wedyn ddouth a phen ag inc a phapur i fi gaul scyrfenu llythyre caru ati hi; a dyna shwt dysges i scyrfenu.

Allse Nwnewl a Nanti ddysgu dim arna i, doudden nhwy ddim yn gallu scyrfenu dim 'u hunen. Roudden nhwy'n bruon heb hyny, serch hyny; trwy i Nwnewl fod mor gall a rhoi'r llwodreth a'r drafodeth i gyd i Nanti. Roudde Nanti'n gallu cofio nethe

i Nanti. Roudd Nanti'n gallu cofio pethe bron fel congordians. Nanti felny oudd y mishtir, widdoch.

Hen lwdwn gwirion oudd Nwnewl. Pan bydde Nanti yn cadw styrc ag e weithe am hyn a'r nall, yr oll wede fe nol wrthi am hyny fydde:—"Dyna, dyna, los; dyna ti wedi brawlau digon nawr, gad dy styrcs, a gad lonydd i fi."

Wedyn fi fydde Nanti'n wearthin yn 'i llowes, ac yn 'i gadel hi. Felny own nhwy'n byw stil.

Dyna fi wedi myn'd i gered eto, achan. Wel, i gaul dowad nes gatre eto, pan own i beiti wyth mlwydd oud, roudd amryw e'r cym'dogion yn gweud wrth Nanti a Nwnewl, yn gystlad ag wrtho i'n human, y dylswn i ddechreu gneuthur rhywbeth i enill y myw-
lieth.

Ond yr ateb gele nhwy gen Nanti stil fydde:—"Dyn helpo'r pwr ffelo bach, beth ar winab y ddeuar all e neud, sawn i, na wn i wirione anwil i."

Roudd un yn awgrymu gallswn i wneyd hyn, ac arall yn awgrymu gallswn i wneud arall, a phawb bron yn awgrymu dylswn i neud rhywbeth.

Rouddwn i'n human hefyd yn credu i bod hi'n rhywyr bryd i fi ddechreu gneud rhywbeth, ond beth allswn i neud, a phwy roise

hyny i fi iddi neud, oudd' y cwestiwne mowr
oudd' nawr yn y nhrwblo i.

Un bore, pan' own i'n penddyfalad am
beiti'r pethe yna, pwy drowse miwn i'r ty
ond Mr Lewis, Bryngwndwn (Mowr! Yr
ouddwn i ar y pryd yn eiste ar genol y porth,
a chyda'i fod e'n y drws, roudde e'n y
ngwelid i wap. "John, achan," medde fe
wrtho i, "wyt ti'n credu dy fod di'n ddigon
o ddyn i darfu brain? Os wytti, mau gen i
waith i ti?"

"Y brenin mowr!" medde Nanti, cyn i
fi gaul cyfle i weud dim, "Nag yw, Mr Lewis
bach, nag yw wirione, waeth fi sythiff yn
gordyn, gwnaiff wirione anwil i, Mr Lewis
bach!"

(I'w barhau.)

.....

GWAS O WAR

LLANDEILO

III.—DECHREU AR FY NGWAS- ANAETH.

Anwil Mishtir Golygydd,—Y: odych chi'n cofio, achan, gyda hanes Mr Lewis, Bryngwndwn Mowr, yn cynyg lle i fi wasneuthu dano, own i'n dibenu'r wythnos wetha?

Well, roudi Nwnewl a Nanti fel se nhwy o dan rhwy dipyn o orfodeth i dalu gwarogeth i Mr Lewis ar lower cyfri.

Yr oudd Nwnewl yn caul gweitho llower iawn gyda nhwy; dyna un cyfri, ac mau'r un yna'n ddigon heb i fi enwi rhagor.

Wedi i Nanti geisho gen mishtir ddowad mlan i ishte lawr (yr hyn withododd e neud). "Drychweh mor llwm mau e," medde hi, "mau'r towydd yn our iawn, a dous geno fe ddim ffit i fyn'd dros; fe sythiff gwnaiff wirione."

"Os mau dyna gyd sy'n 'i ddiior e 'i ddowad oco, fi 'na 'i yna fyny'n bruon?" medde Mishtir Lewis.

"Beth wedi di am hyna, John, medde Nanti, gan droi ata i, galli neud e?"

"Galla," atebes ine.

Wedi fi weud yna, feidde Nanti ddim gweud wedyn, na cheidi ddim myn'd yn 'i glyw e, er oured oudd y towydd; ond cawn i'n nabod yn bronn wrthi nad oedd hi ddim yn folon iawn; oblegid roudd hi'n ffrind fowr i fi er mwyn mami, dreuan.

Dan yr amgylchiade, doudd gen Nanti ddim i neud ond gweud:—"Wel, dyna Mr Lewis, trwy fod e'n dewish dowad atoch chi, does gen i ond didolch yn fowr i chi am roi lle iddo; rych chi'n garedig iawn wrtho ni stil."

"Tewch son, lo's, peidwch sharad," medde fe dan wherthin, "cofiwch hala'r crwt oco fony, a 'dewch arna i am 'i gyflog e."

"O! gnaf, gnaf, Mishtir Lewis bach," medde Nanti, "rw i'n y gwel'd chi'n daliedd iawn stil." Roudd Mishtir Lewis wedi myn'd gyda "Bore da" oyn iddi ddibenu sharad.

Wedi iddo fyn'd, "Dyna," medde Nanti wrtho i, "chuse ti ddim llong" gyda nhwy, fi fyddan yn folon nawr, gwela i; ond dyn dy helpo di nghrwt bach i; mau'r towydd yn our iawn i ti weidi."

Ar iddi weud yna, dyma hi'n ishte yn nghader Nwncwl ac yn dryched i'r tan am lot fowr o amser; roud hi'n gneud hyny stil pan fydde rhwybeth yn 'i thrwblo hi. Wrth 'i gwel'd hi felny, peidwch a beco felna, mami; fe wedodd Mishtir Lewis yr hale fe ddigon o ddillade i fi lle bo fi'n sythu, ond wedodd e, mami?

Atebodd hi ddim, roud hi fel se hi wedi myn'd i ffeulu gwel'd, clowed, na theimlo dim.

Miwn spel fowr, dyma hi'n codi ac yn gwed wrth rhwun oudd yn y shimle:—"O! ie, ie, hi sy wrth hyn eto!"

"Pwy yw hi, mami?" ofynes i. "Nan," medde hi, fel un newy ddihuno. Pwy yw hi? Pwy, holi wyt ti, grwt, medde hi'n grac iawn, cera beiti dy fusnes a phaid holi; gei di wbod yn ddigon cynar fi ranta. Holes i ddim rhagor arni yn lle 'i hala hi i gadw styre.

Wel, os oudd hi beco rown i'n falch

iawn y mod i'n caul myn'd ar y ngwasaneth
er na wyddwn i ddim ar bwy gyflog.

Douddwn i'n hidio naws am y gyflog, caul
myn'd i was'neuthu rhwyle oudd' y moint i;
fi wyddwn y ceiswn i gyflog wedyn.

Tyse pob un fel y fi, fydde dim streics yn
bod, fel sy gyda nhwy yn y gweithe, yn shir
Forganwg a shir Garnarfon, widdoch. Fi
fydde pob un wedyn yn caul 'i dalu nol fel
bo'i fishtir yn wel'd e wedi gweitho; a fi
fydde hynyn beth neis iawn, gwela i.

Beth bena, fi geiso i gyflog nobl; hyny
yw, fi cafodd Nanti hi; ond wedodd hi
riod wrtho i faint oudd' hi, serch hyny.

Dyna fi wedi myn'd i gered eto, achan,
nid dylswn i ddim son am gyflog cyn dechre
gwasneuthu. Bid fyno, fi fuodd Mishtir
Lewis gystlad a'i air; oblegid, fe halodd 'i
lodes forwn a phac o ddillade sha'n ty ni'r
nosweth hyny.

Wedi'r lodes forwn gyredd y'n ty ni, fi
safodd yn y drws; a chyn i neb arall gaul
amser i weud dim dyma hi'n gweud:—"Mau
mishtir wedi'u hala i a'r pethe sy'n y pac
'ma i John bach."

Nid a mai fi oudd yr ieua (er y mod i'n iou na nghender), oudd hi'n galw John bach arna i; John bach galwe hi nghender, hefyd; galw hyny oudd hi gaul dangos 'i hi'n ffrind i fi.

"Wel den! Wel den, wir! dowch miwn Mari fach, a dodwch y'ch pac lowr, a dowch i dwymo," medde Nanti; "mau Mishtir Lewis yn iwso bod yn garedig stil; dyn neis yw Mishtir Lewis?"

"O! ie, dyn nobl yw mishtir," atebe Mari tra'n cymeryd y gader a gynygid iddi.

"Ie," a mynyw nobl yw Misis Lewis, hefyd?" ychwaneg Nanti.

"O! ie, menyw nobl yw mishtres hefyd," ail adnodde Mari, fel un ag ofon gweud nag e fe.

Ofon peido gweud dim am Misis Lewis oudd ar Nanti, hefyd, gallsw'n feddwl.

Pe tyse hi'n gallu ymddiried yn Mari, a Mari yndi hithe rw i'n credu y gneise nhwy i glust whithe Misis Lewis i dwymo'n o lew rhynti nhwy'ch dwy.

Wedi iddyn nhwy bledo spel fowr am hyn a'r nall, fe wedodd Mari i bod hi bownd o fyn'd ne byse 'i mishtres yn grac a dyma nhwy ngafel ag agor y pac. Y peth cynta

ddouth mas o'r oudd! Hat-bob-cam ar ol
Misis Lewis ne'i mham wn i ddim pun.

Mau'r Hate-pob-cam hyny oudd slower
dydd ddim yn y ffashwn nawr, ond y nhwy
oudd yn y ffashwn i gyd gen fenywod miwn
oud, ffor hyn, amser own i'n grwt. Bid
fyno, wedi i Mari a Nanti dynu'r hat mas
i'o'r pac:—"Dere! yma John bach," medd
Nanti wrtho i, "gaul ffio'r hat 'ma," a chyda
dweud yna, roud hi'n dod i'r hat ar y mhen
i. "Dyna," medde hi wedyn wrth Nwnowl,
"be chi'n feddwl am dano, John?"

"O! nobl iawn, nobl iawn wir, mau e'n
dryched yndi fel Clochdy Carfyrdin,"
medde ynte; a dyma nhwy i gyd trwy'r ty
yn wherthin am y mhen i nes oudd y ty'n
crynu gyd; a wrth i gwel'd nhwy'n y
nghymryd i'n sport felny, fi lefes i y dwr
yn hile, a than y ford etho i bwdu. Pan
welodd Nanti fi'n llefen, dyma hi'n cymryd
yr hat ymeth, ac yn tynu i llaw dros y mhen
i, ac yn gweud:—"Cera o na'r ffwl bach
jocan oudd data, paid a llefen, mau'r hat
yna'n dy daro di i'r lliwchyn, ne fyse Mishtir

Lewis ddim yn 'hala hi i ti, weldi."

"Ie, jogan own i," medde Nwncwl, "paid di llefen, hat nobl yw'r hat, gei di weld y bydd hi o wasaneth mowr eto, ac fi ddowi di iddi lico hi hefyd."

Proffwyddoliaeth oudd y geirie yna a ddouth i ben hefyd cyn pen fowr o amser; oblegid fe fu'r hat hono yn rhwy fath o storows i fi wedi hyny, fel cewch chi wbod gen i eto.

Wel, y peth nesa douth allan o'r pac oudd crys glanen fraith a chrafed fowr; gna, cot a gwasgod lwyd o frethyn gwaith ty a brytesh penlin o padent corde melyn, ac yn ola oil, par o gloese o waith Dafy'r gwas, pena nath e'r diwarnod hyny.

Cheisio nhwy ddim gen i ffitio'r rheiny. Bore dronoth rown i ar y llowr yn fore iawn heb gysgu ond ychydig. Yr own i trwy gydol y nos bron, yn meddwl am y spor geise'r gwasaneth ynon yn Bryngwndwn Mowr am y mhen i yn y'n shiwt newy'; ac erbyn y bore rown i wedi penderfynu peidio 'i gwishgo hi; ond gorfu arna i ei gwishgo hi wedyn ne beido mynd at y ngwasaneth o gwbl; roudd yn well gen i hyny na thowli ngwasaneth o'n llaw wedi i fi gaul e.

Bore dronoth rown i ar y llowr yn fore iawn
heb gysgu ond ychydig. Yr own i trwy
gydol y nos bron, yn meddwl am y spor
geise'r gwasaneth ynnon yn Bryngwndwn
Mowr am y mhen i yn ym shiwt newy'; ac
erbyn y bore rown i wedi penderfynu peidio
i gwishgo hi; ond gorfu arna i ei gwishgo
hi wedyn na beido mynd at y ngwasaneth o
gwbl; roudd yn well gen i hyny na thowli
ngwasaneth o'n llaw wedi i fi gaul e.

Ar ol preswado lot arna i, mai dim ond
cyd a parse'r towydd our oudd eise i fi
wishgo'r dillade hyny, fi gwishges nhwy,
rhwng bodd ag anfodd; ac rown i gyda phip
y dydd ar gene Bryngwndwn Mowr yn
fwbach brain, symudol.

(I'w barhau.)

.....

GWAS O WAR

LLANDEILO

IV.—Y FREGWAST GYNTAF.

Roudd Nanti a Nwnowl yn diall y towydd yn llower iawn gwel na fi, achan; oblegid, roudd hi'n sobor o our hyd nes i'r houl godi a thwymo tipyn.

Rouddwn i'n cydnabod yn mhell cyn hyny mai nhwy oudd yn iawn o beitar dillade; ac rouddwn i'n teimlo dylswn i ddiolch iddyn nhwy am neud i fi i dodi nhwy fyny; obelgid, sythau neiswn i hebddyn, wirione fach i.

Mau'r brain o war Landeilo yn rhai riol heurllug, ta shwd mau nhwy gyda chi yn y North oco.

Mau nhwy'n gneud sport o fwbachod meirw ffor hyn stil.

Y bwbach marw gore, ys gellir'i gaul e, yw un ohonyn nhwy hunen wedi lladd a'i dodi i hongiad, ar ben polyn wrth 'i chous, ar genol y ca; mau hyny'n hala ofon sobor arnyn nhwy; ag mau hyny ylweth yn 'u cadw nhwy ymeth.

Ond nid peth riol hawdd yw caul gafel ar un ohonyn nhwy i gaul 'i dodi hi felny; oblegid mau'n nhwy'n rhai sobor o gyfrws;

mor gyfrws, fel na cheiff dyn fynd a dryll
o fiwn can'llath iddyn.

F'e fuodd mishtir a'r dryll dri dwarnod
ar 'u gol nhwy, a Dafir, gwas pena, un
dwarnod arall; ond fi fyse gystlad iddyn
nhwy bob tamed aros gatre, oblegid, ladd-
son nhwy ddim un fran.

Roudd y brain yn 'u wachho nhwy yn
mhob cyfeiriad gymeren nhwy; ag wedi
yr elent nhwy i un ca fi fydder brain yn
codi'r llafur o'r ddeuar miwn ca arall.

Dyna, mau'n debyg, achan, gynhyrfodd
mishtir i nghyflogi i; ag mau hynain gwirio'r
hen Wheddel hefyd, sef, nad ous drwg i neb
nag yw e'n ddioni i rhwun.

Bid fyno, fi ges i nghyflogi i darfu'r brain,
a'u cadw rhog codi'r yd o'r ddeuar cyn cele
fe amser i egino; oblegid i mishtir ffeulu
caul un o honyn nhwy i neud y gwasaneth
hyny yn y'n lle i.

Wei, fi nes i ngore las, yn yr amser bues
i yn bugeilio'r had yn y ddeuar, ond gwaith
dyfod oudd e wirione fach i; obelegid, fe
wnauth y brain eu gore nhwynte hefyd iddi
gaul e oddno.

O dipyn i dipyn fe ddouth yr yde i egino, ac fel roudd e'n egino, roudd e'n caul llonygen y brain; ac fel roudd e'n caul llonygen y brain, roudd y ngwasaneth bwbachol i'n dibenur; ond dyna wi'n mynd o fla'n y'n stori.

Wedi i fi fod yn yr ourni ar hyd ceue Bryngwndwn ar ol y brain rai orie y bore hyny, fe ddouth golwad amno i ddowad i gaul brechwast i'r ty.

Pan gyrheuddes i hyd y clos, fe ddouth mishtir i'r drws, i ngwahodd i miwn i'r gegin fowr at y gwasaneth'ynon; roudden nhwy i gyd wedi cyredd yno o mlan i; ond pan welson nhwy fi'n dowad miwn, dyma nhwy i gyd, am y cynta, yn gweud wrtho i, am ddowad mlan at y tan i dwymo; ag roun nhwy i gyd yn ddiert h o serchog i fi yno.

Wedi nghlowed i'n dowad iwn i'r gegin fowr, dyma mishtres a'r plant yn dowad o'r gegin fach yno hefyd i gaul y ngweld i, ma'n debyg, wauth wedi iddyn nhwy

ddryched yn syn a sych arna i am spel fowr,
fe euthon nol wedyn heb weud dim byd.

Rouddwn i'n shei iawn ag yn rofyn bob
eiliad i clowed nhwy gyd ync'n tori o
wherthin am y mhen i; ond neuthon nhwy
ddim, ddangoson nhwy fowr wedi i fi fyn'd
at y tan, eu bod nhwy yn y ngweld i;
Mari oudd y cynta wedodd air wrtho i
wedyn.

"Ar ol i ti, John bach, dwymo digon dere
at y ford i ti gaul bwyd, mau'r bwyd yn
barod."

Rhag i fi fod yn un rhwystyr iddyn, fi
eis ine fel y gwedodd hi ar unweth, a dyma
Mari yn y nangos i i eishte yn ochor Betsi'r
forwn fach, yr hon oudd run ochor i'r ford
a hi.

Yr ochor arall i'r ford, ar y'n cyfer, roudd
Dafy'r gwas pena; hen lane oudd Dafy, beiti
ddoudeg ne bomtheg ar ugen oud, wedi byw
'n safin trwy'i ous, ag am hyny, roudd
pawb yn gweud fod hen goden fowr gydag
e'n rhwyle.

Yn ishte nesa at Dafy, roudd Bili Morgan,
yr ail was; bachgen ifanc o ddounaw i
ugen oud oudd e, ond roudd e'n un mell-

dithiol o hercog a chragwrus, ond pouni Dafy'r, gwas pena, oudd i bleser mwya fe.

Roudd Dafy wedi cwmpo miwn cariad a Mari, ac wedi cynyg i phriod' hefyd; ond wedi caul i wrthod genti, am i bod hi wedi cwmpo miwn cariad a Billi Morgan; ond wedodd hi mo hyny wrth Dafy.

Yn ochor Billi wedyn fe ishtedde Dafy'r gwas bach, orwt oudd e beiti bomtheg oud, doudd dim byd yn otsol yndo fe ond i fod e'n dipyn o hen glaggi.

Dyna shwd' rai oudd y gwrwod.

Roudd Mari'n globen o ferch fowr harti bron yn ddagon o ddwy, yn llawn o natur dda stil, ac yn barod i neud pobpeth wede pawb wrthi bob amser.

Hen grancen fach oudd Betsi, dipyn yn iouach i golwg na Mari; ond doudd neb yn gwbod faint oudd oudran un o'r ddwy.

Rouddwn i'n credu fod Mari'n bump ar ugen man keia, ag fod Betsi o beiti'r ugen; ond fe widdwn un peth yn bruon, sef, mai

Betsi oudd y forwn bena miwn gwirione, er mai Mari oudd hi miwn enw.

Bid fyfno, wedi i ni ishte'n gomfforddus o beiti'r ford, dyma Dafy'r gwas pena'n codi i ofyn "Bendith;" roud d e'n gneud hyny stid. Wedi i Dafy godi, dyma Bili yn gneud i ddwrn ar Mari i fod yn ddishtaw, felse hi'n cadw lot o styre; a dyma gwineb Mari'n dechre ymliwio gen y drafferth oudd hi yn gaul i beidio wherthin mas am ben Bili gragwrus a'i gleme rhogrithiol.

Fel hyn oudd hi'n ymliwio'n fwy-fwy, roud d ynte'n gneud cleme arni fwy-fwy a'i ddwrn a'i wineb i fod yn weddus.

Cyn bod y ddyledswydd ar ben roud d gwineb Mari wedi myn'd yn bob short o liwie; a phan ddouth Dafy at yr "Amen," hi fostodd gyda bloudd o "Ha, ha, ha," nes oudd yr holl dy yn clindarddad.

Gyda bod Mari'n dechre werthin, dyma Bili'n neidio o'i le ati; ag yn cudio o dan ei cheseile, gyda'r esgus o'i dala hi rhog iddi gwmpo i'r llawr; ond miwn gwirione, achan, gyda'r amcan o'i choglis hi, gaul iddi wherthin mwy, roud d e'n gneud hyny.

A chlowsoch chi rioud fath styre nauth hi; roud d mishtir yn gweud wedyn, iddo i chlowed hi'n gneud pedwar llaish ar ddeg.

Roud d mishtir a mishtres ar y pryd wrth 'u breuwast, yn y gegin fach. Pan ddeuthon nhwy i ddryched beth oudd y mater yno, roud d Bili yn i le wrth y ford a Mari a'i gwineb o'r golwg yn 'i ffedog.

(I'w barhau.)

.....

GWAS O WAR

LLANDEILO

V.—GWETHRED ANGHYFREITHLON

Pan ddouth mishtir a mishtres i'r golwg, roud d Bili yn hyfed 'i gawl, gan ddryched mor seriws a tyse fe ddim yn gw'bod fod dim wedi digwidd. Roud Dafy ono, ynte wedi dechra hefyd, ond gyda golwg ddynsherus o gas.

Roud Dafy'r gwas bach, a Betsi, a finne heb ddechre; roudden ni'n tri felse ni miwn rhwy soc, ac ddim yn gw'bod dim owrtho ni'n hunen.

"Howyr! howyr!!" medde mishtir, pan ddouth e' ato ni, "beth yw'r styre 'na y'ch chi'n gadw 'ma, howyr?"

Wedi ffeulu caul ateb, dyma fe'n gofyn ylchwaith, "Beth yw'r styre 'ma, howyr?"

"Mari gafodd bwl o ientyd," ouddi ateb Bili.

Ar hyny, dyma Mari'n codi ac yn myn'd
ma's i'r clos, rhag byse raid iddi hi glapian
dim ar Bili; roudi hi'n ormod o ffrind iddo
i wneyd hyny arno.

"Beth nest ti iddi, gwas yr andros," gofyne
mishtir wed'yn, gan droi at Bili yn grac.

"Nes i ddim iddi, ne gofynwch chi iddi,"
oedd yr ateb.

O! naddo, fi ranta," medde mishtir yn
wawdlyd, gan droi yn i ol at i frecwast, a
dweud wrtho 'i hunan, "Fi ddo i wbod eto."

Ar hyny, roudi Bili'n dryched ar Dafy'r
gwas bach, ag fel yn gweud, "Fe wedi di
Dafy wrtho."

Gan na ddigwiddodd dim neillduol arall,
fe ddouth y brechwast i ben yn bur glou;
ac yna fe outh pobun at i orchwyl hyd nes
galwyd arno ni nghyd i sino.

Roudi y brechwast yn gynnwsedig o gawl
aill-dwym, bara barlish, a chaws Cymru;
hyny yw, dyna oudd brechwast y gwasaneth
ynon stil.

Roudd breewast mishtir a mishtres a'r plant yn cynnwys gwell pethe; roudd i'u breewast nhwy yn ffynych yn cynnwys ham a wye, bara gwenith gwyn, a choffi; a phan byse fe blauna gyda nhwy, roudd e'n cynnwys bara gwyn wedi dosto, a menyf arno, a choffi.

Roudd y gino wedi yn yn gwahaniethu'n fowr iawn.

Roudd mishtir a mishtres yn bwyta i'u cino yn y parlwr stil; ac os dele Mr Jones, y gweinidog, ar i dro i'no (ag roudd e'n do-wad yn ffynych), dyna lle bydden nhwy yn bwyta i'u prydnwnbryd hefyd; a phob tro dele fe yno felny, fe fydde gyda nhwy dar-ten ne gramwythe gyda the yno.

Ond son am gino o'wn i nawr, achan. Cig gwedder, ne gig eidon, ne bore wedi bobi, fedde gyda nhwy ffynycha.

Weithie bydde genddyn ffowlyn, ne hwy-aden, ne wydd, ne dwrcyn; ond rown i'n sylwi, bob tro bydde un o'r tri ola gyda nhwy, roudden nhwy yn gwadd Mr Jones, y gweinidog, i gino yno stil, oblegid roudd e' wedi gwneud rhwy dro wrthyn nhwy i fod e'n ffond o damed o rhwybeth felny; a pheth araill, roudd mishtir yn ddiagon pwysig yn Capel Capant. Doudd y'n cino ni fel gwasanethynon ddim cystlad, roudd yn gynnwysedig miwn basned o gawl ail-dwym eto, tafell o fara barlish, tamed o

ystlys mochyn, a chwpuwl o dato, a llymed
o lastwr llath ne enwyn i olchi'r rheina
lawr.

Ein prydnawn'bryd eto fydde tato ag en-
wyn, a chaws, ne shican bwdran a llath.
Ein swper wed'yn fydde tafell o fara bar-
lish a chaws, a basned o lath glas ne faidd.

Yr unig newid i hyna gele ni yn yr wyth-
nos fydde pryd o de a bara gwenith gwyn
a menyf arno, bob prydnawn dy' Sul.
Rouddwn i'n gweud gormod wrth weud ta
cawl ail-dwym gele ni i gino bob dydd,
oblegid roudden ni'n cawl cawl ffresh i gino
bob dy' Llun a dydd Iau. Roudden nhwy
gneud llond y badell bres o gawl ddwyweth
yr wythnos, sef dy' Llun a dydd Iau.

Rouddi y cawl nelen nhwy dy' Llun yn
para hyd ddydd Iau, a'r un nelen nhwy
ddydd Iau yn para hyd ddy' Llun; ne rown
nhwy'n gneud iddo bara felny trwy ddoda
dwr am i ben e' gawl ystyn i gouse. Wel,
bid fyfno, wedi i ni ddibenu a'n brechwast y
bore hyny, fe auth Dafy'r gwas pena tua'r

sgubor i ddyrnu, a Dafy'r gwas bach tua'r stabal a'r beidi i garthu dan y nyfled, a Bili i blygu perth un o'r ceue lle'r own i'n tarfu'r brain. Dipyn cyn cyno, yr ouddwn i wedi myn'd at 'i ochor y berth i gaul spel, a sharad chydig a Bili, ond doudden ni ddim run ochr i'r clawdd fel lwcodd hi i fi. Tra roun ni sewrso a'n gilydd, dyma mishtir yn dowad am y'n traws ni yn ddiswmwth iawn, ond trwy fod y clawdd yn un ychel, welodd e' ddim ona i, ac fe gwrewdies i lowr rhog iddo nghlowed i'n myn'd ymeth.

Dowad yro i roi haram i Bili am helynt y bore roudd e, oblegid gyda'i fod en cyredd, dyma fe'n dechre trwy weud, "William?"

"Nan," medde Bili.

"Ous dim cwily' arnat ti, achan?"

"Am beth?" gofyns Bili.

"Am beth, yn siwr! Rwy't ti'n gwbod am beth yn bruon, yr un annuwiol fel ag wyt ti. Rwy't ti'n cellwer a phethe da, ac fe ddowi di i gaul dy grogi os na ddiwygi di, gei wel'd eto."

Pan ddibenodd mishtir lefaru'r geire yna,

fe wherthodd Bili am 'i ben e'; ond os do fe, fe halodd hyny mishtir yn ddynsherus o grac; a dyma fe'n codi laish, ac yn myn'd i hwyf fowr i weud hanes a ffortshwn Bili, dreian.

Ffortshwn glawd oudd e'n roi i Bili; ond dodw i ddim yn cofio cwarter yr hyn wedodd e; ond yr w i'n cofio iddo weud mai'r pwll ddiweulod fyddde lle Bili'n syden fach, ac bydde iddo fe hala Bili ymeth clyngeua, rhog iddo dynu barn ar y lle.

Chafodd mishtir ddim o'r tir iddo 'i hunan i gyd, bid fyno; fe fynodd Bil fod am yr hem ag e; fe ddangosodd iddo 'i fod ynte'n gwbod rhywbeth hefyd, a'r diwedd fu, i mishtir adel iddo, a myn'd sha'r ty.

Fe ddouth galwad yn glou iawn arno ninne i fyn'd ar o'd e' i gaul cino. Roudd y gino wedi 'i doddi ar y fford yn barod, ac fe ishteddson ninne i w bwyta, fel y gneuthon ni yn bore, a gofynodd Dafy, fel gwnauth e' yn y bere, am fendith arni; ac wedi iddo ddi-benu, ni hyfson y'n cawle miwn rhywfath o ddi'shtawrwdd ffyrnig.

Roudd Mari gyda ni ar gino, ond roudd hi'n och'neido, nawr ac ylchweth, ac yn colli dagre, a'r rheiny, fel oun nhwy'n dowlad, yn cwmpo oddiar 'i gruddie hi i'r cawl; ond doun nhwy'n newid dim ar 'i flas e'n lledl debyg, ne fe fyse hi'n nabod,

Roudd mishtres wedi bod wrth Mari fel
y buodd mishtir wrth Bili.

Bid fyno, fe auth y gino drosodd, a llower
cino, heb ddim ond hynny am hynny, hyd nes
douth hi'n amser dechre ar y cneua gwair.

"Wel, fy mechgyn a merched i," meddie
mishtir, wedi cino un diwarnod, "mau'r
gwair yn eifed, mau'r cneua wedi dowad am
y'n traws ni, dewch i ni gaul y pladurie'n
barod erbyn foru."

Fel y gorchymynwyd, felly gwnaed; a'r
pladudie erbyn dranouth, a tincancuth a
ddouth; ond roudd Bili wedi myn'd! Wedi
tori ar i wasaneth, a chilo ta shir Forganwg
i'r gweithie glo.

(I'w barhau.)

.....

GWAS O WAR

LLANDEILO

VI.—MISHTIR A MISHTRES.

Pechod mowr iawn, yn ngoiwg y ffermwr, yn Shirgar, yw tori oddar wasaneth.

Dim ond dou bechod yn 'u golwg nhwy sy'n fwy nag e, lladrata nifled a lladd dyn yw'r rheiny.

Pan ddiallodd mishtir fod Bili wedi myn'd i gered, fe auth yn ddynsherus o grac; roudd e fel dyn a cholled arno'n towli ag yn tasgu, rhegu a phobpeth; welsoch chi, achan, shwd' glame ar ddyn arioud ag oudd arno fe.

Wrth 'i wel'd e fe'ny mor grac, ag ofon byse fe, yn y picil hyny, yn gneud rhwy ledwhithdod, fe auth mishtres ato gan ddodi 'i llaw ar i fraich e gaul treio caul rhwy berswad arno; ond gyda 'i bod hi'n gneud hyny, roudd e'n towli 'i llaw hi ymeth whiw oddiwrtho, gan weud yn ffyrnig "Cerwch ona, los, cerwch beiti'ch sbusnes, los, pwy pwy, fusnesa ych chi?"

Doudd mishtir ddim yn iwso bod yn ryff wrth mishtres, ac am hyny, fe gafodd hi shoc fowr iawn; ond nid un, i gymeryd rhwy lot fowr o bethe rhyff oudd hi.

Na, na, wedi iddo fe dowli 'i llaw hi ymeth a'i hala hi gylch 'i busnes, dyma hi'n sefyll yn stand stil o'i flan e, ac yn dryched yn 'i wineb e a'i llyged yn g'rychoni tan.

Wedi dryched am spel fowr arno felny, dyma hi, gan daro'i throud yn erbyn y barth, yn gofyn iddo miwn rhwy ddull mowreddog iawn:—"Dafy Lewis, odi chi'n gwbod pwy odw i? Os nad ych chi, fi weda ä wrtho chi."

"Wel, gwedwch te," medde ynte, miwn ton oudd yn dangos i e'n dechre dylofi chydig o dan drychiad hi.

"Unig ferch Dafis, Talyrhiw, Dafy Lewis."

"Hym," medde ynte'n wawdlyd.

"Te, hymwch chi faint fynoch chi, Dafy

Lewis, dyma pwy odw i,' medde hithe gan dhwanegu.

"Ie, a dyma'r parch odw i'n gau gyda chi, rhog ych cwily' chi."

"Rouddech chi'n addo pethe gwell na hyn amser ouch chi'n dowad i Dalyrhiw i gadw cwmp'ni i fi slower dy'; rych chi wedi anghofio hyny nawr. O! odych, odych, rhai da i anghofio peth ych chi fei nashwn.

"Dyma'r amser douth ych tata chi oco a' yn nhata i i rytydda drosoch chi am dano i, fe wedodd y byse fe'n rhoi dou cant o byne gyda chi y bore byse ni'n priodi, ond fe anghofiodd neud hyny. O! do, do, fe wedodd hefyd y byse fe'n dodu doudeg buwch o wartheg i chi ar Bryngwndwn erbyn y byse ni yn dowad i fyw yma, ag fe wnauth hyny a rhai oudd e wedi brynu ar hem gownt miwn ocshwne, a chithe, Dafy, yn feiche iddo am danynt.

"Eline wedyn yn gorfod talu am danynt o arian y ngwaddol, lle bo chi'n caul myn'd i Jail Carfyrdin.

"Dyna ffor' ych chi wedi delo a fi.

"Dyna shwd barch odw i wedi gau gyda chi, a be se data'n gwbod?"

"Mau data'n cadw'r fferem fwya ar lan Towy; ac mau geno fe gannoudd o byne yn y banc; a fi allsw'n ine, tyswn i'n peido grondo ar ych whele chi, fod nawr yn wraig i bregethwr ne ffeirad. Fe fuodd digon o

honyn nhwy'n shiglo llaw a fi, a phob un ohonyn nawy bron yn coglis torr yn llaw i a'i fys bach, wrth neud hyny, fel arwdd i fi fod geno fe rhwybeth i weud wrtho i, tyse fe'n caul grouso.

"Dei anwil! fi fues yn ffolach na'n ilun, do, mau'r Mowredd yn i wbod e."

Roudd mishtres yn gweud y frawddeg ola 'na dan wylo, a chyda 'i bod hi'n dibenu gweud, roudd yn ishte glwmp ar gader oudd gerllaw iddi, ac yn cuddio'i gwineb a'i dwylaw fel mau ffeiradon yn gneud yn Eglws Louger.

Roudd mishtir cyn iddi hi ddibenu'r areth wedi llwyr ddylofi, ac yn dryched fel un wedi caul rhwy ofon mowr sobor; a phan ddouth e ato 'i hunan dipyn ar ol iddi hi ishte, fe gadiodd yn 'i hat a mas ag e; oblegid fe widde fe'n bruon am dani nad oudd hi ond megis dechre tyse fe'n haros i rondo arni.

Peidwch chi meddwl, achan, mai dyna shwd oudd hi stil rhwng mishtir a mishtres; na, na, roudden nhwy'n byw bowyd mor gariadus a chysurus a neb yn y 'gledydd, a thowli pobpeth at 'u gily', widdoch.

Roudd hi'n dyner iawn wrtho fe weithe; nawr fi adrodda i am un tro i chi gaul gwel'd pwy mor dyner oudd hi iddo.

Roudd gen Mishtir Lewis whar—hen ferch weddw—yn byw miwn fferem fach, beiti filltir a hanner o Bryngwndwn.

Un awarnod, pan cudd hi'n bwydo'r f'lowis, fe gwmpodd lawr yn iarw ar y clos, miwn ffit o apoplexy — dyna oudd Dr Wmffres yn wedid oudd 'i ddeur hi — a'r prydawn hyny, fe ddouth cymydog iddi a'r newy' i Bryngwndwn i mishtres. Roudd mishtres, ar y cynta 'n ffeulu diall shwd gwede hi am 'i whar wrth mishtir, rhog iddo fynte gaul ffit hefyd; ond wedi penddyfalad tipyn, dyma hi'n myn'd ato i'r gegin fowr, lle rodd e'n darllen "Taith y Pererin" wrth y tan.

Wedi iddi fyn'd iddi ochr e, dyma hi'n tynu'i llaw dros 'i ben e ddwyweth ac yn gweud:—"Peidws e, bach, a chwmyd ofon, peidws chwmyd ofon, bach, mau'i whar fach e wedi caul anhap bach."

'Chas e, bach, ddim ofon, do fe?' gofyne hi gan dynu'i llaw wedyn dros 'i ben e deirgwaith.

"Beth gafodd hi?" atebodd e.

"Peidws e, bach, a chwmyd ofon," medde hi dan gamol i ben e deirgwaith arall, mau'i whar fach e wedi caul ffit; chas e, bach,

ddim ofon, do fe?"

"Wedi caul ffit?" gofyne fe bron yn wylt.

"Ie," oudd yr ateb dan gamol o hyd, "mau 'i whar fach e—peidws e, bach, a chwmyd ofon—mau 'i whar fach e wedi—ous dim o fe, bach, yn caul ofon odi e?—mau 'i whar fach e wedi ma—marw."

"Ho! wel, wel," medde ynte dan bwysol i ben ar dor i law, "mau wedi marw!"

Yr unig ateb roddodd hi iddo oudd, tynu i llaw dros i ben e nhwy ddwsen a hanner o weithe, ac yna gofyn iddo:—"Chas e, bach, ddim ofon wi'n gobeitho, do fe bach?"

Gan na chafodd hi 'run ateb ganddo, dyma hi'n chwanegu:—"Dews e, bach, peidws e a thori 'i galon fach, fi 'na i ddished fach o de iao fe a chramwythen fach gyda hi, ac fe gaiff wedyn fyn'd iddi wely bach, gaul iddo wella."

Gan ei adel hi auth yn awr i neud fel y gwedodd hi.

Os oudd mishtres weithe yn llym, roud hi'n dyner hefyd, ac os oudd mishtir weithe dipyn yn grac 'i natur roud e'n ddigon call stil i roi'r gore i mishtres, a thrwy hyny, rown nhwy, a chwmyd polpeth i styrieth, yn byw yn od o daliedd, fel gwedes i o'r bla'n.

Bid fyno, rhaid 'u gadel nhwy ar hyna; ac yr wi'n began y pardwn chi, achan, hefyd, am y mod wedi aros mor hir gyd nhwy; ag rw i'n addo i chi nawr nad a i ddim gered gyda nhwy eto.

(I'w barhau.)

GWAS O WAR

LLANDEILO

VII.—YR EUOG YN FFOI.

Fe nauth Bili mwy gilo ymeth felny yn adeg y c'neua golled fowr sobor i mishtir; ond dim mwy nag oudd Bili'n ddymuno.

Doudd gen Bili harin i mishtir na mishtir ddim harin chwaith iddo ynte. Roudden nhwy bicyn ynghopyn stil, oblegid, medde mishtir, roudd Bili'n ngafel a rhwy gragwri byth a hefyd.

Roudd Bili ono ynte'n gweud i bod hi'n boun bowyd arno i fyw 'no, fod mishtir yn 'i ben e'n rown am ddim o ddimws y ddeuar; a'i fed e yn gweud lower gwaith yr wshnos wrtho ta dim ond hyd glyngcua byse fe yno.

I gou: bod am yr hem a mishtir fe ben-derfynodd Bili ei gwanddi hi adeg y cneua gwair, yr adeg bydde ei eische fe fwya am mishtir, a'i gwanddi, fel gwedes i o'r blan, achan, nauth e hefyd.

Ond fel mau'r hen wheddel yn gweud, dous golled i neb nad ous enill i rhwy'n, fe fuodd y golled o madowiad Bili yn enill i fi; fe geiso i dyrchafiad miwn posishiwn yn gystlad ag miwn cyflog. Fe ail drefnwd y rhenc, fe gafodd Dafy'r gwas bach ei neud yn ail yn y gwasaneth, ac miwn canlyniad fi ddois ine miwn am le Dafy gyda chodiad yn fy nghyflog. Gyda'r codiad yna miwn posishiwn a chyflog, fe ddeutho hefyd i gaul byw a bod yno fel un o'r gwasaneth'ynon erill, yn lle myn'd bob nos, fel o'r bian, tua chadre at Nwncwl a Nanti.

Fe ddeutho i a Dafy trwy cyfnewidiad i fod yn gywely i'n gily' ac ar lofft y beudy uwch y da own ni'n cysgu'r nos.

Roudd Dafy yn eulod yn Capel Capant, ac wrth 'i wel'd e'n fachgen mor daliedd yn y golwg, yn ac obeiti'r ty, fe allsech chi, achan, feddwl ei fod e'n fachgen sobor o duwiol; ond roudd e'n gallu rhegu a phethe'n bruon pan na byse neb o hyd clyw ond fi ag ynte.

Roudd e mor ddefoshwnol a Phab, serch

hyny; ac roud d e'n cadw 'i ddyledswydd' stil fel se fe mor dduwiol a Sant Antwn. Roud d e'n troi at yr Arglwydd y peth cynta'n y boreu; ac fe fydde'n troi'r peth dwetha'r nos cyn myn'd i'r gwely wed'yn. Yna, gyda y bydde fe'n dibenu gweud 'i ddyledswydd, fe fydde yn neidio fel cwrcath ata i i'r gwely i nysgu i ffor oudd i fi ddwgdw gwsberus hwn, fale'r nall, &c., &c., nol fel byse'r ffriwts yn 'i tymore.

Fe ddeutho i o dan i ddysgeidieth e yn riol gamster miwn chydig flynydde ar ddygyd ffriwts o erddi dynon—gystlad ag oudd e'i hunan cyn iddo fe gaul i neud yn ail was.

Wedi iddo fe gaul i neud yn ail was, doudd geno fe ddim amser na chyfle iddi dygyd nhwy fel roud d geno fe, pan oudd e'n was bach; ond roud d e' bown o'u caul nhwy stil, a fi oudd bown o ddowad a nhwy iddo hefyd.

Roud d gen i, fel gwas bach, ddigon o gyfle stil i ddwgyd holl ffriwts y lad i gyd; oblegid fi oudd yn caul myn'd ar negesuon dros y mishtir yma ac oco nawr ac ylechweth.

Am amser roud dwn i'n gallu dwgyd amser y ngwasaneth pan ceiswn i gyfle i ddwyn ffriwts rhwy'n; ac roud dwn i'n gallu gochi

celwidde hefyd wrth mishtir am yr amser hyny, trwy weud mod i wedi caul y nhowli fel hyn ac fel arall.

Gan mai fi hefyd oudd yn hol a heb brwn y gwartheg fore a hwyr, roudwn i'n caul digon o gyfle i ddwyd yn ddyddiol; ac rown i'n gneud hyny hefyd fynycha yn dymore'r ffriwts am beiti beder blynedd.

Yr ouddwn yn ystod yr amser hyn wedi dowad yn sobor o ffriws a Miss Maggie, roudd hithe yn lico ffriwts hefyd, ac rown i'n ei dwyn nhwy iddi hi o gariad ati, ac roudd hithe yn y nysgu i i scyrfenu am'ny, heb wybod i neb.

Doudd hi ddim yn y ngorodi i ddowad a ffriwts iddi hi fel Dafy, eu cymryd nhwy gen i oudd hi am y mod i'n rhoi nhwy iddi.

Fe ddygse hi fi i scyrfenu am ddim, medde hi, roudd hi'n ffriw i n, o'blegid i fi rhwy dro, roi cot i Rhys, y Pandy, am i mhela hi wrth ddowad o'r ysgol.

Roudd hi pryd hyny yn credu am dano i, oblegid i fi roi cot i Rhys, ta fi fyse 'r wmladdwr gore trwy'r holl ledydd tyswn i'n deileto miwn wmladd; ond nid yw hi'n credu hyny nawr.

Rown ni'n dou yn ffrins mowr pryd hyny, bid fyno, ac rown i'n dowad a rhywbeth o rhwyle iddi stil; ond fe ddouth diwedd ar hyny.

Un nos Sal, yn amser enua llafur, y bedwerydd flwyddyn o ngwasaneth i yn Bryngwndwn Mowr, fe ddouth Dafy i'r gwely fel arfer ata i, a chyn 'i fod e wedi gorwedd yn iawn: "Jac bach," medde fe, "dyna lot o 'irin a phlymins weles i heddi yn ardd hen Nansy'r Cwnsheri, roun nhwy'n dryched mor neis! O! roun nhwy mor neis 'i golwg i dynu dwr o ddannedd doddi! Herci di lon'd dy hat ohcnyn nhwy foru cyn codo'r hen Nansy, Jac bach?"

Roudd hyny nawr i fi ys blynydde, widdoch, fel rhan o ngwasaneth; ac rown i'n gwel'd fod hyny hefyd yn rhoi cyfle i fi gaul cwplwl o blymins i Miss Maggie yn y

fargen; ac, hefyd, fo widdwn na fyse dim iws i fi weud, na; am hyny, fi atebes iddo, Herca i."

"Gore wir," medde fe, "here nhwy 'te wrth hol y gwartheg iddi godro bore foru; ac os gofyniff mishtir i ti lle buost cyd, gwed ta'r gwartheg oudd wedi myn'd yn grous i Dowy, fe dy grediff di'n union, oblegid' mau'n nhwy'n myn'd weithe widdot ac mau ynte'n gwbod hyny."

Hen fenyw fowr dew oudd Nansy'r Cwnsheri, oudd yn byw miwn ty bach to cawn ar lan Towy, beiti hanner milltir obry o Bryngwndwn.

Roudd hi'n gallu gwella'r clefyd melyn, ac hefyd clefyd y galon ar fechgyn a merched fyse wedi colli'u cariade trwy gwnsheri; am hyny roudd hi'n caul 'i galw yn Nansy'r Cwnsheri.

Rw i'n 'i chofio hi unweth yn dowad i Bryngwndwn i gwnsheri'r clefyd melyn oddar Mari, ac fe wellodd Mari bob dydd wed'yn.

Bid fyno, bore dy' Llun a ddouth, ac iei own i'n iwso myn'd stil, fi eis i i hol y gwartheg i gaul eu godro, ac i hol llon'd yn hat o 'irin a phlymins yr hen Nansy cyn hyny. Pan gyreiddes i yno roudd hi yn yr ardd yn tori rhwy lyse at neud meddyginieth i ladd llyngyr ne rhywbeth. Wedi rofyn a rofyn wrthi am yn agos i awr, hi auth i'r ty o'r diwedd, ac fe eis ine i'r ardd,

ac fe lanwes yn hat bron o'u hirin a'i phlym-
ins hi, ac ymeth a fi a'r hat ar y mhen, fel
own i'n gneud stil.

Nawr fi eis i ddryched am y gwartheg, ond
diar a godio, achan, roudd rhwyn wedi myn'd
a nhwy tua gadre; rown i'n gwel'd hol 'u
traud nhwy wedi myn'd, ac fi deudes ine
fyn'd gaul 'u dala cyn y byse nhwy yn cyr-
edd y clos, ond roudden nhwy ar y clos, mau
debyg, cyn i fi ddowad o ardd yr hen
Nansy.

Rown i, erbyn mod i yn cyredd y clos, wedi
slafio'n hunan nes own i'n whys mowr; a
chyda mod i'n cyredd yno, dyma mishtir yn
dowad ata i a'i ffon yn 'i law a golwg ddyn-
sherus o grac arno.

"John," medde fe, "ble buot ti, haldi,
achan?"

Fe atebes ine iddo fel y dysgodd Dafy fi
i neud nosweth cynt.

"O! dy gelwy' mowr di," medde fe, gan
chwanegu, "mau whant arna i dori'r ffon 'ma
ar dy gefen di, a ous?" Gyda hyny, roudd
y ffon y nhwrnu trwy'r air, ac yn taro'n
hat i whiw oddar y mhen i, nes ouda yr
'irin a'r plymins yn dishgyn yn gawod ar y
clos. Pan welodd e hyny, fe safodd yn
standstil miwn syndod. Pryd hyny, fe geis
ine gyfle iddi gwanddi hi tua chadre at
Nanti.

(I'w barhau.)

.....

GWAS O WAR

LLANDEILO

VIII.—TROI DALEN NEWYDD.

Jawcst, achan, peth sobor iawn yw cydwybod euog, ma'n hala rhwy ofon mowr iawn ar ddayn, a dyna'r achos fod pob dyn euog yn ffoi heb 'i nerlid.

Rown i'n euog o ddwyn, ac wedi nal gen mishtir; roudi e'n evidence ar y ngwdawg i, ac rown i'n 'i gwel'd hi ar ben arna i, rown i'n y ngwel'd i'n caul myn'd i'r jail, ac fi ges i ofon mowr diarth—yr ofon mwya ges i arioud.

Pan gyrheuddes i adre, roudi golwg sobor o ddiarth arna i, ac fe fuodd Nanti bron cwmpo miwn ffit wrth y ngwel'd i.

“John bach, O! machgen mowr i,” medde hi, gan daro'i dwylaw yn 'u gily'. “O! gwed wrtho i be sy'n bod?”

“Mae digon,” wedes i, gan dori i lefen.

"Beth sy'n bod? Beth wyt ti wedi gaul? Beth wyt ti wedi neud? B'le mau dy hat di?" oudd y gofyniade nesa, ond cyn i fi ddwad i allu'u hateb nhwy, roud d Mishtir yn y drws yn gofyn:

"Odi John wedi dowad yma?"

"Odi, Mishtir Lewis bach, dlowch miwn, be sy'n bod?" oudd ateb Nanti.

"O! dim niwed mowr, dim ond mod i wedi dowad iddi dries e," atebe ynte, gan ddowad miwn i'r ty yr un pryd, a'r hat a'i chynws o dan i gesel.

Yna adroddodd i Nanti ei fod e ei's meit- yn yn drwgdybio'r esguson mynych roddwn i am yr amser a gollwn wrth neud negeseu- on, nad oun nhwy ond carn o gelwidde yn caul 'u golchi ar 'u gily'; ac iddo ddowad ar y ngol y bore hyny gyda'r amcan o gauti ma's beth oedd y gwirione, a shwd llwydd- odd e yn hyny.

Pan ddibenodd mishtir weud 'i stori fe gododd Nanti ei dwylaw miwn dychryn, gan droi ata i a gweud:

"Rhog dy gwily' di, John! Cato pawb, ti ddowi i gaul dy grogi, wirione fach i,

mae dy olwg di'n gweud dy fod di'n gildi!
A phwy dy ddysgodd di i ddwyn? Nid y
fi a dy data dy ddysgodd di, fi a i yn ddife-
ar hyna; gwed, grwt, be sy gen ti i weud
trosot ti d'hunan?"

Roudd blaish Nanti with ofyn y cwestiwn
yna yn gweud wrtho i, mai gwell oudd i fi
ateb rhywbeth ar unweth, ne dderbyn y
consequens o beido yn o glou. Felly, fi at-
ebes iddi dan lefen a chrynu gyda'r gair
"Dafy'."

Yna bu dishtawrwdd am dipyn; y cynta i
sharad wed'yn oudd mishtir.

"Ho!" medde fe, "Dafy', aie. Dafy'r
bachgen sifil, gonest, crefyddol, a santedd yn
dysgu lledrad, aie?"

"Eu cyredd/ nhwy 'te i Dafy, out ti?"
gofyne Nanti yn fwy tawel, dan bointo'i bys
at y plymms oudd yn yr hat o dan gesel
mishtir.

"Ie," oedd fy ateb.

"Dyns," medde hi, "gwed di'r gwirione i
gyd, wrtho i a Mishtir Lewis, ffor buodd
hi; a chwedyn gei di fod yn rhydd am y
tro hyn ond i ti addo peidio gneud hyn byth
eto, gnei di?"

Gan fod telere Nanti'n rhai riol hawdd, fi

atebes iddi, "Gnaf." Yna, fi wedes yr oill a chyfan am ormes a strance Dafy, ond dim wedes i am y fasnach oudd rhyngo i a Miss Maggie; rown i'n ormod o ffrind iddi hi iddi hala hi gaul styre am ddim.

"Dyna," medde mishtir, "gei di fod yn rhydd tro hyn, ond chei di ddim gwishgo dim rhagor ar y hat yma, ffeinda di rhwybeth arall a dere oes ar y ngoi; mau haram yn aros Dafy nawr fach," medde fe, gan ddryched ar Nanti.

"Wirione, mau e'n'i heuddi, fe ddyie——" Wedodd Nanti ddim rhagor, roudd mishtir wedi myn'd o glyw a'r hat a'i chynws ganddo, ac ni weles mohoni mwy.

Fe fuodd hireth mowr arna i ar i gol hi am hir amser, roudd shwd hyd yndi at gadw pethe, a chymint o bethe stil gen ine iddi cadw; ond gan i fi newid yn ffordd o fyw, fe ddouth llai o'i hishe arna 'i na fuodd.

Bid fyne, cheiso i ddim myn'd yn glou ar ol mishtir fel roudd e am; fe gadwodd

Nanti fi gadre i gau'i brecwast gyda hi, er mwyn iddi hi, mau'n debyg, gaul pregethu tipyn ar y mhechode i a Dafy; so hefyd i gaul cyngori tipyn arna i i fyw yn fwy taliedd o hyny mas, rhog i fi fyn'd i fwy o hobl.

Pan gyrheuddes i nol i Bryngwdwn mowr, roudd mishtir a'r gwasanethynon wedi brecwasta, ac wedi myn'd mas at 'u gwaith i fedir ca gwenith; ac roudd pobpeth beiti'r ty yn eitha dishtaw, fel roudd e'n iwsso bod stil.

Gan nad oudd neb iddi gwel'd beiti'r ty, fi eis miwn i'r ty at mistres gaul clowed pwy orders oudd genti i fi, ac fe nghlowodd i'n dowad, ac fe ddouth i'r drws i nghwrdda i, ac medde hi:

"Ddoist ti do fe, yr horswn bach drwg? Os cest ti frecwast, cera iddi helpu nhwy ar y gwenith."

"Dda," iatiebles fine, gan fyn'd ymeth yn eitha shei, ond wrth fyn'd rown i'n 'i chlowed hi'n gwneud wrth 'i hunan:

"Dyna debyg iddi data yw e hefyd."

Roudd mishtir pan gyrheuddes i i'r ca yn medi'r gwenith am bowyd gyda'r gwasanethynon, a phan welodd e fi'n dowad i'r ca, fe weuddodd arna i i ddowad i rwymo ar 'i ol e; a rhwymo ar 'i ol e bues i trwy'r dy' y dwarnod hyny.

Roudd mishtir yn gweithio ar y cnuafe stil, ond dim llower gyda hyny.

Wrth ddilyn mishtir, rown i nawr ac ylchwaith yn towli ambell i lygad at Dafy'r ail was, widdoch; gaul gwel'd shwd oudd e'n dryched; ac rown i'n nabod yn biron with 'i olwg e, 'i fod e wedi caul haram y bore hyny; oblegid roudd e yn dryched mor gas arna i, a tyswn i yn gi canddirog; ond feudde fe ddim gweud na gneud dim lle clowe ne wele mishtir.

Y nosweth hyny, wrth fyn'd i'r gwely, yn lle troi at yr Arglwydd fel roudd e'n iuso gneud stil, fe drodd Dafy ata i, ac fe ngalwedd i'n bob enw cas allse fe ffeindo; ac fe'n rhegodd i, ac fe fwgwthodd y'n lladd i a phobpeth, achan.

Fi gredes i 'i fod e'n myn'd i neud hyny hefyd, ac fi rhoies screch fowr, a dyna shwd ces i lony' gento; wedodd o ddim wrtho i nag wrth yr Arglwydd wrth fyn'd i'r gwely

cyd y buodd e wed'yn yn was yn Bryngwndwn.

Bid fyno, cyn i ni adel y ca'r dwarnod hyny, roud d hi'n ole louad, a phan oun ni beiti adel, fe ddouth Miss Maggie i'r ca ato ni i weud wrth 'i thad fod 'i mami'n gweud wrtho am 'i gadiel hi, os nad oedd e am weithio dydd a nos?

"Cer di nol, fe ddown ni nawr," atebodd ynte.

"Na," medde hi, "os odych chi'n folon, fi helpa i John i rwymo'r hyn sy ar ol," a dyma hi yndowadl at a i'inghelpu (roudd hi a fi'r un oudran).

"Wel," medde fe, "gwna fel y mynot ti, dyma fi'n myn'd;" ac medde fe wrth y rhai erill, "Dowch nawr, ddynion, 'dewch hi am heno."

Roudd pawb yno wedi blino, ac yn barod i roi fyny ar y gair, ac felly y gneuthant hefyd, gan ddilyn mishtir sha'r ty.

“Dewch iddyn nhwy fyn'd yn gynta,” medde Miss Maggie yn'ynghlust i yn ddish-taw, “fe ewn i ar gol nhwy.”

“Glori,” meddwn i, gan ddal i ryw mlan nes i'r ola o'r gwasanethynon fyn'd mas o'r na o'n go'wg. Yna ni shteddsom yn dou ar ein gorchwl, a bu dishtawrwdd yno am dipyn bach.

Yna gofynodd i fi, “Wedsoch ddim wrth data beiti fi bore heddi, do fe?”

“Naddo,” atebes ine.

“Fe wedsoch ar Dafy, ond do fe?”

“Do,” oudd fy ateb.

“Wel, ffor na wedsoch chi arna i te?” gofyne hi.

“Rown i'n ormod o ffrind i chi, i weud dim am danoch chi,” atebes i.

“Odych chi'n ffrind i fi te?” gofyne hi wed'yn, felse hi ddim yn 'y nghredu i.

“Odw, nghariad i ych chi,” wedes i, gan ddodi mraich am 'i gwddwg hi, a rhoi slab mowr o gysan iddi clowse chi e o wish b'le.

(I'm barhau.)

.....

GWAS O WAR

LLANDEILO

IX.—MEWN TWYMYN.

Gyda'n hanes i a Miss Maggie ar y ca' gwenith o'wn i'n dibenu'r wythnos wetha.

Wel, wedi i fi ddodi mraich am 'i gwddwg ni, a rhoi'r cysan mowr hyny iddi, "Fon shem, John," medde hi, felse hi'n hanner crac 'ma; ac yna, fe gododd ac fe rhedodd sha'r ty o mla'n i, i weud wrth i mami, o'wn i'n feddwl.

Fe redes i spel o'r ffordd ar 'i gol hi, goul treio genti sefyll i sharad a fi; ond er mwedd a mwedd arni neyd hyny, safodd hi ddim.

Diach arroad, achan, ro'wn i'n ngwel'd i nawr miwn haffeth newy', a widdwn ar ben bowyd beth nelswn i, pan ne myn'd ar 'i gol hi sha'r ty, ne myn'd gadre at nwnawl a nanti; wedi consetiuth tipyn, fi bender-

fynes fyn'd sha'r ty ar 'i gol hi, bid fyno, gan feddwl, falle na wede hi ddim baiti fi.

Pan gyrheuddes a'r ty, roudde mishtres wedi par'toi y swper yn barod ar y ford, a'r gwasanethynon yn 'u llefydd yn aros i Daf-y'r gwas pena ofyn am y fendith; ac roudde ynte ar 'i draud yn golchi arni am fowyd. Wedi iddo ddibenu, fe gymeres inne'n lle gyda nhwy; ac yna, fi neis y ngore i fyn'd trwyn shar miwn chydig o amser, gaul myn'd i rhywle o'r golwg, rhog i mishtir ne mishtres ddowad yno i gadw styre a fi lle clowse'r gwasanethynon.

Fues i ddim fowr o dro wath y swper; wed'yn, fi eis ma's, ac i'r 'sgubor i orphws tipyn ar y gwellt oudd 'no.

Cyn hir, fi glown swn troud ysgon rhwyn yn dowad yno ato i, a phwy oudd hi, erbyn spio, ond Miss Maggie 'i human.. Wedi ngwel'd i'n myn'd miwn, ac wedi dowad ar 'y ngol i yr oudd.

"Beth y'ch chi, John, yn moyn fan hyn?" medde hi, yn ddishtaw, gan ishte yn y gwellt ar mwys i.

"Myn'd i rhwyle'n lle bo fi'n caul styre, odw i," meddwn i, a'n llaish i'n crynu.

Fe gredodd hi mod i'n llefen, ac medde hi, "Na hidiweh naws; wedes i ddim am gyne wrth data na mami, na neb."

"Wedes inne ddim wrth neb, hefyd," atebes i'n lled swta; ac yna bu chydig ddishtaw-rwdd.

"Rou'ch chi'n gweud ar y ca' gyne," medde hi miwn celyn, yn grynedig, "fod chi'n ffrind i fi, a ta fi oudd y'ch cariad chi?"

Gan nad oudd fowr dialldwrieth rhyno rito, chydig o ymddiriedeth oudd hefyd; ac am hyny, yn lle ateb 'i chwestiwn hi ar un-weth, fe ofynes inne iddi hi,

"Odych chi'n ffrind i fi, 'te?"

"Odw," medde hi, gan nesu'n nes ata i, a gweud yn 'y nghlust i, "ond mau mam'i'n gweud ta gwraig i bregethwr fydda i."

"Gwraig i bregethwr fyddwch chi, hefyd; pregethwr odw i i fod," meddwn i, gan gadio yndi, a rhoi lot fowr o gysur iddi, a wed-odd hi ddim nawr wrtho i am beido; roud-odd hi felse hi miwn rhwy soc, ac ro'wn inne, ran hyny, hefyd.

Bid fyno, ro'un ni'n diall y'n gily'n bruon erbyn hyn, ac ni euthon i gynlluno ffor oudd dowad o beiti bethe. Yr oudd hi yn dowad a phethe scyrfenu i fi o Landeio tro nesa bydde hi'n myn'd yno gyda'i thata; ac ar ol

i fi ddysgu scyrfenu, ro'wn i ddechre pregethu; yna fe fyswn yn caul colege ar gost yr enwad, ac wedi yn yn caul eglws, ac yna'n priodi, ac yn —.

Wel, cyn i ni ddibenu'r cynllun, fe glowen swm troud ar y clos yn nesu tuagato ni.

"Cwatwch," medde hi, gan neido ar 'u thraud, a dechre tow'i gwelit droso i. Gyda hyny bron, fe glown laish mishtir yn gweud,

"Maggie fach, beth wyt ti'n neyd fan hyn mor hwyr a hyn, blentyn? Dere i'r ty," a hithe yn ateb, "Crynhoi'r gwelit 'ma, lle bod en sarn ar hyd y lle," ac yna y ddou yn myn'd ymeth.

Wedi'r ddihangfa gyfyn' yna, fe godes i miwn tipyn o ngwal, gaul i gwanddi hi sha'r gwely yn llawn o gariad a dishgler obeithon. Ond nid i gysgu—i gynllunio, ac i feddwl am yr hyn a ddigwiddodd yn ystod y dydd, ac am y nyfodol gole i a Miss Maggie; yna, fe ddouth Dafy, fel y gwedes i'r wythnos wetha, a ta i i'r gwely; a rhwng y cwibwl, roud hi bron yn ddy' gole glan arna i cyn i fi gysgu dim llygedyn.

Pan cysges i wed'yn, fi fryddwydes mod i a Miss Maggie gyda'n giily' yn y sgu'bor, a mod i'n gwel'd Dafy'n dowad ato ni a phladur gento i'n lladd ni'n dou; yna, fi ddihunes, ac ro'wn i'n sobor o sal. Roudd yn bryd codi. Roudd Dafy wedi codi, ac wedi gwishgo am dano yn barod i gochwyn ma's at i wasaneth. Roudd e' yn meddwl 'y ngadel i gysgu mla'n, er mwyn i fi gaul styre am hyny gen mishtir; un sobor diert h oudd mishtir am y bore.

Wedi gwel'd Dafy, a diall i drice, fi godes inne; ond ro'wn i mor feddw bron a whilber, ac roudd 'y mhen i hefyd bron a boliti gen y boun oudd ynddo.

Fe auth Dafydd ma's yn glou, heb weyd gair wrth neb; fi eis inne ar i ol e' mor gynted galles i wishgo, er mwyn cyredd y gwartheg iddi godro; ond pob cam ag o'wn i'n roi, ro'wn i'n y nghlowed i'n myn'd yn salach, salach, o hyd.

Pan ddois i a'r gwartheg 'nol, roudd Mari a Bet i a'u stweane gyda nhwy ar y clos, yn aros am danaf gaul godro.

Ro'wn i, erbyn hyn, yn sal tuhwnt, ac fe nabyddodd Mari hyny yn go glou, ac fe'n halodd i i'r ty at y tan, i fi, medde hi, gaul gwella; ond wellodd hyny ddim arna i, bid fyno.

Rhwng naw a deg ar gloch, fe ddouth nanti yno i'n hol i sha gadre; a chadre ar i chefen hi miwn shol ces i fyn'd, mau'n debyg, ond dw i'n cofio fewr am hyny nawr.

Dyw gwyr y 'lad, widdoch, yn talu dim un doctor fel gwyr y gweithe; felny, doud dim un doctor yn y lle, on' Doctor Wmffres, ond doctor y plwyf oudd hwnw. Yn lle moyn hwnw ata i, fe nauth nanti, wedi nodi i'n y gwely, jwged o de meint i fi; ond ddois i ddim yn well ar ol i hyfed e.

Yna, fe halodd moyn yr hen Nansi, yr hon, pan welodd hi fi, a wedodd nad oudd dim i neyd a nolur i ond i gwnsheri e'; ac os ffeule hyny, byswn i farw; ac roudd pawb yn credu i bod hi'n gweud calon y gwir.

Bid fyno, fe auth hi ngafel a'r cwnsheri ar unweth. I neyd hyny, roudd yn rhaid iddi neyd torth o fara yn llawn o bine drain, a'i chrasu hi yn y ngolwg i; ac wed'yn, ei chladdu yn rhwy'le heb yn wbod i fi; ac fel bydde'r dorth yn pwdru, medde hi, y byswn inne'n gwella.

Mau'n rhaid taw e, hefyd, oblegid fe fues i'n hir odieth cyn gwella. Wel, bid fyno am hyny, fe auth yr hanes am y cwnsheri, bore dranoeth, i gluste mishtir; a phan clowodd e' hyny, fe auth yn bowdwr gwylt; doudd e' ddim yn credu miwn cwnsheri a phethe felny, oblegid roudd e' wedi bod yn darllen rhwy "Seren Gomer."

Fe ddiallodd wrth yr hanes, serch hyny, mod i miwn picil drwg; a ffwrdd ag e' i moyn Doctor Wmffres i ngwel'd i ar i gost i hunan. Fe ddouth y doctor, hefyd, ac i ol e'n go glou; ond wedi iddo ngwel'd i, fe shiglodd i ben, ac fe wedodd y mod i yn y brain fever. Nad oudd geno fe ddim yn y byd i neyd a fi, ac nad oudd gen i ond chydig o amser i fyw; a phe byswn i'n cau' byw, na fyswn i ddim ond dwlbyn hanner call.

Do, achan, fe wedodd felna; ond gweyd i gelwidde nauth e', ac fe gododd wheigen felen hefyd ar mishtir am danyn nhwy. Wel, os na ddois i yn ddigon clefer i bregethu, fe ddois i yn ddigon clefer i neuthur pob gwaith fferem, ac i labro am flynydde wedi hyny, miwn gwaith glo yn shir Forganwg.

(I'w barhau.)

GWAS O WAR

LLANDEILO

X.—Y GWAS NEWY'.

Anwil Mishtir Golygydd,—Fe wedodd y doctor cyn madel, bid fyno, fod un peth allse nhwy neud i fi, y peth gore, a'r unig beth allse nhwy neud; hyny oudd, cadw mhen i'n our gyda chlwtyn wedi 'lychu miwn dwr our yn fynych; y byse hyny falle'n dylofi peth ar y dwymyn hyd nes celswn i dro arni, ac os gallswn i ddala hyd hyny, gallswn i wella. Roudi pawb yn gwboi hyny, diolch iddo fe.

Roudi pawb yn gwboi, tyswn i ond gallu dala'r dwymyn nes byse'r dorth hyny gladdodd yr hen Nansy yn y ddeuar yn dechre pwdr, y byswn i wed'yn, yn gwella gan bwyll, fel y bydde'r dorth yn darfod yn y ddeuar.

' Wel, bid fyno, fe fues i yn agos i bythewnos cyn caul tro ar y dwymyn; ac wythnos

ne bythewnws arall wed'yn cyn mod' i'n diall dim oddiwrtho i'n hunan.

Fe fues i, ys gwedodd Nanti, yn agos i ange, ac yn wmladd yn galed iawn hefyd ag e am y mowyd; ond dw i'n cofio fowr iawn nawr am y batl, serch hyny.

'Bid fyno, wedi i fi gaul tro ar y dwymyn fe ddechreues i wella; ac o dipyn i beth fe ddoutho i godi i'r llawr, ac i bican tipyn o'r mouthe oudd hon a'r nall yn ddowad i fi.

Roudd pobun yn g'ruedd iawn i fi, ac yn falch iawn hefyd y mod i'n argoli gwella.

Fues i'n hir iawn cyn gwella, serch hyny. Fe thales i fishodd i wella; oblegid ddois i ddim yn ffit i ail ddechre ar y ngwasaneth cyn dechre'r flwyddyn. Pan eis i nol at y ngwasaneth dechre'r flwyddyn, roudd tipyn o newid wedi cymryd lle yno. Roudd Dafy, yr ail was, widdoch, wedi madel oddno oddar clyn'geua, a gwas arall yno yn i le fe.

Bachgen ifane, beiti ddounaw oud, o'r enw Jagob Hiws, wedi i'ni a'i fagu o war Landyfri oudd e.

Mau darllen am Hiw's blyd pils yn y'n hala i gofio am dano fe stil; ond nid yr un Hiws oudd e, a Hiws y pils, serch hyny. Doudd e'n deleito dim miwn gneud pils ac eli a rhwy fflwcs felny; er, fe alise fe'u gneud nhwy'n bruon tyse fe'n troio; oblegid roudd e'n un sobor o daliedd i neud pishis o ganu a barddonieth.

Tyse fe'n caul llony' gen mishtir neise fo ddim pwythyn a'i ddeg ewin ond gweitho can'uon a'i ddwycous ar ben y pentan. Roudd e' pan byse fe yn myn'd y' ngafel a rhwy gragwri felny, yn y ty, yn codi ei gouse i ben y pentan stil; a phan fyse mishtir yn 'i wel'd e'n gneud hyny, "Nawr, Jagob," medde fe, "dere, dere, gad yr hen fflwcs yna ar ol; d'yn nhwy'n ateb dim byd yn lle gwitho, weld di." Ond wauth beth yn y byd wede mishtir myn'd y ngafel a nhwy nele Jagob bob tro cele fe gyfle stil.

Roudd e'n gnuthur pishis o ganu am bobpeth bron, yn enwedig am rhwy ddou fydde'n caru, na ddou fydde wedi ffreuo a'u gily' ag wmladd; ac am bobpeth 'te fydde wedi digwidd yn lletwhith trwy'r holl 'ledydd ffor hyn.

Fe nauth bishin mowr o ganu un tro aia
gariade Mari a Betsin tori'r gambo achna
nosweth.

Tyswn i'n gallu cofio'r canu hyny, fe fyswn
i'n i scyrfenu i chi, achan, nawr; fe fyse'n
ddigon o bregeth i chi; ond dw i ddim yn i
gofio fe; cof clawd sy gen i oddar bues i yn
y dwymyn.

Roudd faint fyne' nhwy o gariade gen
Mari a Betsi; roun nhwy yn dowad beiti'r
ty weithe yn ddrofe mowr; doudd e dim
byd i chi afo ugen ne ddeg ar ugen ohonyn
nhwy yno.

Pan byse nhwy yn dowad yn ddrofe
mowr felny, doudd neb ohonyn nhwy yn
caul ty; oblegid fe fyse'r rhai fyse mas yn
siwr o nuthur rhwy gragwri ne gadw rhwy
styre i gaul y rhai fyse wedi caul ty mas.

Mas byse raid iddyn nhwy fyned hefyd,
wauth roudd mishtir yn myn'd yn ddynsherus
o grac os clywse fe rhwy styre beiti'r ty.

Pan fyse rhywrai yn cadw styre weithe,
roudd mishtir yn codi o'r gwely, ac yn
myn'd a'r dryll mas ar hol nhwy, ac weithe
yn seuthu hefyd; ond chlowes i ddim son

'i fod e wedi lladd neb arioud, serch hyny.

Wel, bid fyno, un nosweth fe ddouth eariade'r ddwy lodes yno o bob cwr o'r ddeuar ar wn i; roun nhwy fel angladd beiti'r ty, a phob un yn 'i dro yn treio caul agoriad; ond fuon nhwy naws gwell, chas neb e'.

Wedi iddyn nhwy feulu felny gyd, fe ethon at y gambo oudd yn mhen draw'r clos a dwy shafft yn pwyso ar y clawdd, i gadw cwrdd i gaul styried pwy gragwri neise nhwy, lled debyg.

Fe auth cwmint a wedde yn y gambo iddi ar unweth, ond trwy nad oudd digon o le ynddi iddyn nhwy gyd fe ishteddodd y rhai erill (ac roun nhwy lot fowr), ar y ddwy shafft; ond os do fe, fe glwen ddwy gradj fowr y ddwy shafft yn tori, a nhwynte yn dishgyn i'r llowr dab; a chyda 'i bod nhwy ar llowr, roudd y rhai oudd yn y gambo'n caul 'u tipo ar 'u pene nhwy fel carted o goud oil.

Dei anwil! achan, dyna lle roudd pystylad wed'yn i gaul treio dowad yn rhydd o'u gily' genti nhwy; difershwn oudd u gwel'd nhwy.

llwyy.

Roudd pob un fel roudd e'n llwyddo i gaul i hunan yn rhydd, yn 'i gwanddi hi ymeth am i fowyd; ac roudd hi'n llawn bryd hefyd; ob'egid fe fyse mishtir yn siwr o nuthur nhwy ledwhithdod tyse fe'n caul gafel yn un ohonyn nhwy pan ddouth e mas a'r ddyll i ddishgwyl beth oudd y styre oun nhwy wedi gadw yno.

Roudd Jagob a fi yn gwel'd y cyfan o'r dechre, ac roun ni'n nabod y rhan fwy ohonyn nhwy.

Roudd Mari a Betsi yn 'u nabod nhwy hefyd; ond chafodd mistir, na neb arall, yn Bryngwndwn, wbod byth pwy oun nhwy, er fod mishtir yn cynnyg pum' punt am gaul gwobod hyny.

Roudd mishtir yn credu mai gweithred • ddialedd a malesh oudd teri'r gambo; • ond fe widdwn i a Jagob mai anhap teg a digri, ond colledus oudd; ac fel a yny cymerodd Jagob e i neud y canu arno.

Fe fuodd son fowr iawn am y canu hyny gen bobun; ac roudd pobun yn lico'i glowed e, ac fe fuodd raid i Jagob 'i ganu e un tro ar lofft y White Horse, Llandeilo,

Un felna oudd Jagob. Doudd e'n prisho dim pryd delse hi'n na ddy', na phryd else hi'n nos. Gweitho canuon oudd i holl ddeleit e stil.

(Iw barhau.)

GWAS O WAR

LLANDEILO

XI.—GOFIDIE CARU.

Fe faddeuwch chi i fi, achan, am fyn'd i gered gyda hanes Jagob yr wythnos wetha.

Roudd yn annodd i fi beido gweud dim am Jagob; oblegid fe oudd y nghywely i yn lle Dafy', widdoch; ac am hyny, rown ni fel dou frawd gyda phobpeth ond gyda barddonieth. Merlid a barddonieth oudd 'i bechod mowr e.

Wel, i gaul dowad mol eto at y'n hanes y'n hunan, fel gwedes i o'r 'blan, fe ddechreues ar y ngwasaneth dechre'r flwyddyn; ac roudd pawb yn falch sobor mod i wedi dowad i allu gneud hyny, ond neb yn fwy balch na Miss Maggie. Y peth cynta ges i neud i ddechre, oudd myn'd i garthu'r beudy; a chyda mod i'n dechre ar y job fe ddouth hi yno ata i i weud pwy mor falch oudd hi mod i wedi gwella; a'i bod hi wedi bod bron

tori chalon yr amser bues i'n sal wrth feddwl
pwy mor sal own i; ac y byse hi wedi dowad
i spio'n hynt i droion oni byse bod 'i mhami
yn grous. //

"Rown i'n erfyn ych gwel'd chi'n dowad
not neb," meddwn i; "ac rown i'n credu, wedi
'ch gwel'd chi'n ddim yn dowad, ych bod
chi wedi'n anghofio i am byth."

"Dim peryg!" medde hi bron yn grac,
"ffor' shem, John!" "Lychcoch," medde hi
wed'yn, gan dynu copy seyrfenu, pôteled o
inc, a phenholder mas o'i phoced a dryched
yn seriws arna i; "fi wedi 'ch anghofio chi
ieffe?"

"Began pardwn, cariad, wi'n ych credu chi
nawr," meddwn i, gan ddodi mraich am 'i
gwddwg hi a rhoi slab mowr o gysan ar 'i
boch hi; ac roudd hi'n dryched wrth 'i bodd
nawr, ac fe roddodd y pethe i fi gaul 'i
cwato nhwy o'r golwg. Roddodd hi mo nhwy
fyned yn rhy glou chwauth; oblegid, cyn i
fi gaul amser i roi diolch na dim iddi am
danyn nhwy, roun ni'n clowed sw'n troud
rhwy'n ar y oles.

Gyda hyny, roudd Miss Maggie yn y ngadel i yn right ddiseremoni; a chyn mod i wedi caul amser i stwffo'r pethe scyrfenu i frest y ngrys yn iawn; rown i'n clowed llaish mishtres yn gofyn: "Ous dim cywily' arna ti los? Myn'd i sharad a'r gwasanethynon yn y tai mas fel rhwy gati fachgen oco, iefe? Beth ta'r 'lad yn gwybod? Beth wede dynon? Hach y fi'n siwr! Cera i'r ty yna neud di, rhog dy gwily' di; dir cato ni'n bryd! Yna d'own hi'n dowad at ddrws y beudy; a chyn gallsech chi rhifo deg, roudd hi'n sefyll ynddo a golwg sobor o grac arni hefyd; ond rown i'n 'mroi i ngwaith gwmint allswn i."

Wedi dryched arna i fyned, "John," medd hi.

"Nan," atebes ine.

"Wyt ti'n credu i fod e'n beth taliedd i ti dynu Maggie ata ti fel hyn i'r tai mas? Wyt ti'n credu fod rhwy lwngi fel ti yn ffit i sharad sha merch i? Mau merch i wedi caul cwnad resbactabl. Mau merch i wedi caul ysgol i fod yn ledi, beth na ches di, ac na chei di byth, hefyd, a thi sy'n myn'd i dori charitor hi iefe? Un na wyr e ddim pwy yw e yn myn'd i dori caritor merch i ddynon gwmerodd drugaredd arno lle byse

fe'n starfo aie? Gad di fi ych gwel'di chi gydach gily' eto, dyna gyd wi'n mofyn! Dir cato ni! Weles i ddim peth fel hyn yn y'n amser i!"

"Fuodd dim drwg rhynto i a Miss Maggie," meddwn i, yn wirion fach.

"Dim drwg yn siwr!" medde hi, "dim drwg yn siwr! dous dim na drwg na da i fod rhynto chi tra bo i byw, fi a i'n ddife i ti am hyny; a meinda di na wela i ddim hefyd sy gore i ti."

Roudd hi wedi myn'd yn rhy grac i weud dim rhagor; ac, felly, fe ngadawodd i, gan fyn'd nol i'r ty a golwg ddynsherus arni; ac yn wirione' fach i, achan, un ddynsherus oudd hi hefyd.

Wedi breuwast yn y bore digwidd y pethe yna. Amser breuwast dechreues i y bore hyny; ond fyse dim whithryn o ots gen i heddi tyswn i heb ddechre yno eto; oblegid fe fuodd i danodieth a'i bwgwithion bron tori nghalon i'n ddwy; a nes i ddim gwerth dime

o waith trwy dy' na bwyta gwerth dime o fwyd. Ohes i ddim gwel'd Miss Maggie hefyd wed'yn y dwarnod hyny; a thronouth pan gwel'es i hi, ddryche hi ddim arna i mwy na'i ehato; ac roud d hyny'n tori nghalon i'n wauth wed'yn.

Rown i yn i charu yn driw. Ond a cudd hi yn y ngaru i? A oudd i' mam i wedi troi i chalon hi oddwrtho i

Shwd oudd dowad i w'bod ffor oudd pethe'n sefyll?

Rhwy gwestiwne felna oudd na'r yn y mlino i ddydd a nos; a dyna lle rown i'n penddyfalad am rhwy ffordd i gaul gw'bod; ond pwy allse roi gw'bod ond i hunan?

Roud d hi'n cadw bant oddwrtho i, a phan byse ni dowad i gwrdd a'n gily', doudd hi ddim yn dryched ata i o gw'bw'l; ond dryched ne beido, myn'd yn ffrindach, ffrindach iddi, a i gwel'd hi'n lanach, lanach, own i o hyd, a phara i seemo shwd oudd caul cyfle i sharad a hi.

Wauth seemo na pheido, doudd dim un cyfle iddi gaul. Roud d pob seem yn myn'd yn ofer. Yr unig beth lwyddes i neud oudd gneud yn hunan yn dene a digalon. Roud d-wn wedi myn'd bron mor dene a chrychydd, a bron mor ddigalon a dafad; ac roud d pawb

yn credu mod i'n decleino, a phawb bron yn dryched arna i gyda rhwy dosturi. Amser riol anifyr ges i y geua hyny. Yr unig difershwn ges i yndo fe o gwbl oudd clowed Jacob yn adrodd i farddonieth; roud e weitha yn ddigon i hala ceffyl i wherthin, gen mor smala odd e a dyna os dim dowl y nghadwodd i'n fyw.

Fe basodd y geua ac Ebrill gydag e, bid fynd, cyn i fi a Miss Maggie gaul yr un cyfle i sharad un gair o'r neilldu; roud mishtres wedi meindo am hyny.

Ond fe ddouth Mai, a chydag e, fo ddouth ffair G'lame, Llandeilo; ac roud hi'n ffashwn gyda mishtir a mishtres stil i fyn'd bob blwyddyn i'r ffair glame; ac felly yr ethon nhwy y flwyddyn hyny hefyd.

Roun ni'r gwasaneth ynon dwarnod y ffair yn gorfod myn'd i'r ca erfin i hwnu'r erfin; ac ni geso'n ddwarnod pouth sobor i neud hyny hefyd.

Roud hi'n bouth iawn yn y pynawn, beiti dou a thri o'r gloch felna; ac roun ni'n hwsu'n dyferu yno; a phob un yn achwyn fod syched arno.

"Jac bach," medde Dafy'r, gwas pena',

wrtho i, "cera i'r ty, gofyn i Miss Maggie am lymed o lastwn i ni, gwed y'n bod ni bron llwgu o'i ishe fe."

Dafy' oudd y mishtir pan byse mishtir a mishtres ymeth; am hyny, fi es ar unweth; ac rown i'n falch i gaul myn'd hefyd.

(I'w barhau.)

GWAS O WAR

LLANDEILO

XII.—DAFY' A MARI.

Roudd' caul myn'd i'r ty dros y gwasaneth-
ynon ar neges y dwarnod' hyn yn golygu rhoi
cyfle i fi gaul sharad' a Miss Maggie, a dyna
shwd' o'wn i mor falch o gaul myn'd drostyn
nhwy.

Dim ond' hi hunan oudd' gadre y dwarnod
hyn. Roudd' Masters Tom a Willie yn yr
ysgol yn Landyfri ys mishodd', a Miss Jane
yn ysgoll' y 'ffeirad, yn y pentre, fel roudd'
hi'n iwso bod stil; ac fel gwiddoch, roudd' i
thata a'i mami yn Ffair Glame Landeilo.

Bed' fyno, pan eis i sha'r ty, fe ddouth
Miss Maggie i nghwrdd' i i'r drws; a phan
welodd' hi mai fi oudd' yno, yn lle bod yn
hawgar ac yn gruedd, fel dylse hi fod' i fi,
fe gochodd' i gwineb' hi fel y tan, ac fe
drodd' nol i'r ty heb weud' un gair, felse hi
wedi caul rhwy ofon dierth.

Wel, ofon ne beido, fe ges i shomedigeth fowr sobor, fyno; ac fe fucodd agos i fi anghofio beth oudd 'y neges i yno, a throi ymeth; ond miwn ar 'i gol hi eis i.

Wedi clowed y'n neges i, fe tauth i'r gell ar unweth, ac fe ddouth a jwged fowr o tauth ma's genti miwn tipyn, gan 'i dodi ar y ford o mla'n i; ond yn lle myn'd a'r jwg i'r ca' yn glou, fel dylswn i, fe safes i fel rhwy geitwch oco i ddryched arni am spel fowr.

Rhyw thyrwch arna i oudd e', achan, ond fe ddouth i ateb dilben, serch hyny, oblegid fe wherthodd Miss Maggie arna i, ac fe ofynodd beth oudd y mater arna i; a phryd hyny ceso i le i a'llws y nghwdyn. Roudd cwded bach diogel iddi a'llws gen i hefyd, ond a i ddim dros y stori hyny gyd nawr.

Roudd hi'n riol drw i fi stil, a'r achos i bod hi'n peido dryched arna i oudd, fed 'i mam i a'i llyged ar 'i holl hi. Bod 'i mam yn 'y nghyfri i fel rhwy ran o stoc y fferem, a byse fe'n gwily' mowr i'r tylwith iddi gwel'd hi'n dryched dim arna i byth, medde hi; ond fe sicrodd i fi, os na cheise hi ddryched arna i, na ddrychse hi ddim ar neb arall, tyse nhwyn cynnyg mab i 'ffeirad iddi.

Wedi caul sicrodd, felna, 'i bod hi'n rdiw, a'n bod i gario'r garwrieth mla'n yn ddirgel-edd yn y dyfedol; ni madewson a'n gily' yn od o daliedd, ac ro'wn i'n myn'd nol i'r ca erfin wrth 'y modd.

Peth diigon rhwyddl yw cynllunio rhwy-
beth, ond peth anoddl yw 'i gario fe ma's
wed'yn. Bid fyno, dyna fell y buodd hi
gyda'r garwrieth.

Roudd mishtres yn cadw gwiliadwrieth mor
fanol arno ni, fel nad oudd un shawn i ni
gau sharadl gair, weithe, am fish ne ddou;
ond roun ni'n mynu gwenu, ne roi winc, ar
y'n gily' heibo rhwy gorne'l stil, serch hyny,
ond dyna gyd tra byse hi gadre.

Anfynych yr ele hi o gadre, ac felly an-
fynych y cele ni gyfle i sharad gair; ond
roudd hi weithe'n mynd, ac roun ninne'n
gneud yn bruon pryd hyny.

Tra'r o'wn ni'n byw fel hyn, rouddl y
dyddie, yr wythnose, y mishoddl, a'r blyn-
yddedn paso; hyny yw, fe basodd tair blyn-
edd heb i ddim mwy hynod na hyna i ddi-
gwidd yn y'n hanes i. Nawr, fe gym'rodd
cyfnewidiad le yn y gwasaneth, a dyma
shwd y bu.

Un diwrnod, fe safodd Dafy'r gwas pena wedi cino ar y'n hol ni i sharad rhwybeth a mishtir; ond beth fuodd y sharad fu rhyntyn nhwy, ddois i byth i w'bed.

Wel, y nosweth hyny, fyno, roudd student o'r Balla yn prepethu yn Capel Capant, ac yn clasgu at y colege; ond auth dim o mishtir i'r cwrdd; roudd e, medde fe, yn teimlon anhwyfus, ac am hyny auth mishtres ddim hefyd, na Betsi.

Dwn i ddim a oudd rhwy ddiallwrieth rhyntyn nhwy ne beidc; ddim ond Dafy' a Jagob, a Mari a finne, auth i'r cwrdd o Bryngwindwn Mawr y nosweth hyny.

Wel, fe geson ni bregeth dda odieth gen y

student, ond ta pregeth o waith Charles o'r Bala oudd hi, tyse hi wauth o hyny.

Wedi i'r cwrdd ddilbenu, rould lot o gryts yn weitan i Jagob a finne ddowad ma's; ac yn lle myn'di gadre'n glau, rould yn rhaid cwmryd mwgyn gaul gweud storië a chaul clowed Jagob yn gweitho barddonieth; ac rould e' yn gneud pishis crand i'r cryts fel yr owel.

Pharodd y mwgyn ddim yn hir, oblegid rould yn rhaid i ni fod gadre erbyn naw, ne fod heb swper.

Rould yn naw arna i a Jagob yn cyredd Bryngwndwn, ac rould y swper ar y ford. Gyda'n bod ni tufiwn i'r drws, dyma mishtir yn codi o'i gader wrth y tan, ac yn gweud wrth Dafy' a Betsi (dim ond y rhwy'ch dou ouddno),

"Dewch at y ford nawr, te," ac rould rhwy wen gragwrus ar 'i wineb e' a Betsi;

ond roudl Dafy' yn dryched mor seriws a tyse fe wedi colli 'i bwrs a i arian.

Bid fynd, fe cfynodd mishtir am y fenth yn lle Dafy', ac wedi iddo ddibenu, fe auth e' nol iddi gader i smoco, ac fe ddechreuson ninne olchi ar y shidan bwdran oudd o'n blaune; ond cyn i ni ddibenu, fe ddouth mishtres ato ni o'r parwr.

"Shwd mau yna nawr?" gofyne Mishtir.

"O!" cadd ateb mishtres, "mau'n benwan yn 'i chroun, ac yn sterics gwyllt; ac mau yn gweud mai dim ond hyd glangeua y bydd hi gyda ni."

"O! ie, ne lai na hyny," medde fe, gan ddryched yn gragwrus tuagat Dafy'; ond doud Dafy' ddim yn cwm'ryd arno wel'd, na chlowed, na diall dim.

Tendo golchi ar y bwdran yn y bla'n nauth Dafy', gan ddryched mor gas arno, a thyse fe'n de whermwnt lwyd, ne de ffa'r gors.; ac wedi iddo ddibenu, fe gadiodd yn 'i hat, a ma's eg e' tua'i wely i orphws heb weud gair.

Gan i Dafy' fyn'd, rhaid oudd i finne a Jacob fyn'd hefyd, oblegid roudd shampl Dafy' yn caul 'i styried geno ni stil yn orchymyn, a myn'd neuthon ni heb gaul gwbod dim beth oudd y mater a'r Mari.

Dronouth, fe gafodd Jacob gyfle i sharad a Betsi, yr hon oudd wedi caul yr holl stori gen Mari 'i human. Y stori oudd hyn:— Wedi Mari ddowad ma's o'r cwrdd rol bod yn grondo'r student yn pregethu, fe fwrdd Dafy' yn hochor i gaul dowad gyda hi gadre, ac wedi cered spel o'r ffordd, fe ofynodd iddi:

“Glowsoch chi, Mari, fod gwr Penyweun yn myn'd i roi'r lle fyny?”

“Naddo i, wirione’,” atebodd hithe; “odi e', te?”

“Odi,” medde fe, gan ychwanegu, “dyna

lle ganed a maged fi nes o'wn i'n grwt diogel,
ac fe licwn i fyn'd i fyw 'no eto, Mari."

"Leicech chi?" gofyne hi.

"Licwn i," medde fe, gan chwanegu eto,
"rw i wedi penderfynu setlo am y lle yn
gwiaws i fi gaul priodi, a sefydlu lawr; rw
i'n y'ch caru chi arioud —"

"Cerwch ona chi, 'rheu ffwl; dw i ddim
yn moyn i chi ngharu i," medde hi yn grac,
dan reido dwylath odd wrtho.

"Mari fach," medde fe'n dowel, dan dreio
cadio gafel yn 'i braich hi, "rhoswch i fi gaul
sharad a chi los."

Wrth 'i wel'd e'n treio cadio gafel yndi,
fe gafodd Mari ofon fod drwg yn 'i lawes e',
ac fe weuddodd "Jwbwb!" nes oudd y lle'n
eco, ac fe rhedodd gadre o'i fla'n e' am 'i
bowyd. Erbyn iddi gyredd y ty, roudd 'i
gwynt hi yn ei dwrn hi, a nauth hi ddim ond
cyredd y parlwr cyn cwmpo'n rheng ar y
soffa.

(I'w barhau.)

.....

GWAS O WAR

LLANDEILO

XIII.—YN WAS PRIODAS.

Anwil Mistir Golygydd,—Helynt sobor o ddynerus oudd dechre carwrieth Dafy. Welodd e ddim golwg arni wedir nosweth buodd e'n sharad a hi wrth ddowad o'r cwrdd, am yr wythnos hyny; rould hi'n cadw o'r golwg gyda mishtres yn y gegin fach.

Rould hi'n grac sobor iawn wrtho fe am ddyddie, ac rould hi'n gweud pethe drwg scandalos am dano fe hefyd; heblaw 'i alw fe'n hen ffwl, a hen labwst hurt, &c., ond rould e, serch hyny, yn caul 'i amddiffyn yn glen stil gen mishtir, ne mishtres, a hyny hefyd gyda chamolieth fowr.

Un dwarnod, wedi blino grondo arni'n rhedeg drws Dafy, fe wedodd mishtir wrthi am iwso'i sens a styried beth oudd gyda hi miwn llaw miwn amser, rhog ceise achos eto i difaru.

Rould Dafy, medde fe, wedi bod yn 'i wasaneth e am flynydde mowr, ac rould e wedi gaul e'n fachgen da, sifil, a thaliedd iawn stil; ac mai dyna oudd 'i garitor e gen bawb ond genti hi.

Rould e'n ddiagon yn y capel hefyd; ac nid honer fach i fachgen o was fferem, oudd caul 'i ddewis yn fleunor i ishte dan y pil-pud, pan oudd dynon fel gwr yr Allt Ddu, a gwyr o ffermwrs mowr erill, yn gorfod ishte nol miwn seti bach.

"Na, na, Mari fach," medde fe wed'yn, "ac rwyf ti nawr wel'd di, yn powri ar bilyn da, y bydd yn dda gen ti eto 'i gaul e, falle; fi wn i hyn, bid fyno, fe fydden dda gen garne o ferched gaul yr honer o fod yn wraig Penyweun."

"Dous mona i'n 'i moyn hcner e," medde hi'n grac, "Ta pun e wyt yn 'i moyn hi, ne beido, paid di ngadel i dy glowed di'n rhedeg Dafy i lawr felna eto sy gore i ti," medde fe'n ffyrnig sobor; "ac ar hyny roud d e'n myn'd mas yn rhy grac i sharad rhagor."

Llefen nauth Mari fwyar dwarned hyny

wedyn; oblegid, medde hi, bod pawb yn 'i herbyn hi.

Dy' Gwener buodd y pethe yna. Erbyn dy' Sadwrn roud d Mari wedi dylofi llower iawn. Roud d mishtres wedi bod wrthi, ac wedi caul tro arni, ac wedi caul genti gwmyrd pethe i styrieth; fel erbyn nos Sadwrn roud d hi'n cryched yn od o gweiet.

Dy' Sul, bid fyno, roud d hi a Dafy yn y parlwr, ar de gyda mishtir a mishtres; ac rown i'n 'i chlowed hi weithe, yn spongo wherthin 'i chalon hi, fel gnele hi stii, pan byse hi wrth 'i bodd, ac yn clowed rhwy'n yn gweud rhwy jocen fach. Tebyg ta mishtir (un cragwrus iawn cudd e stil am rhyw jocen fach), tebyg ta fe oudd yn 'i phrofoco hi, mai'r "wraig o Benyweun" fyse 'i henw gen pawb yn od o glou; roud d hi'n lico hyny yn bruon, ta pun ne cudd hi'n lico Dafy ne beido.

Os byddwch chi byth, achan, eische talu parch a gwarogeth fowr i ffermwr, ne wraig ffermwr, o war Landeilo; peidwch chi a'u

galw nhwy yn Mr hwn a hwn, na Mishtres hon a hon; galwch chi e y gwr o'r lle bo fe'n byw yndo, a hithe y wraig o'r lle bo hithe'n byw yndo. Mau hyny iddyn nhwy

fel teitl arnyn nhwy; ne, run fath a tha chi'n galw, 'Lord Dre'newy' a 'Ladi Dre'newy' ar Lord a 'Ladi Dre'newy'.

Felna, achan, doudd dior yn y byd fod Mari'n wherthin wrth glowed mishtir yn gweud mai'r wraig o Benyweun fyse i henw hi gen bobun yn od o glou.

Roudd Mari nawr wrth i bodd, ond doudd Betsi ddim felly; roudd hi'n dryched mor ddiflas a thyse hi wedi caul baw yn i dannedd; a phob tro byse hi'n clowed Mari yn wherthin yn y parlwr, "Clowch hi nawr' mau fel nhwy hen afar wanw'n oco."

Dous dim amheueth na nauth Betsi'i gore gyda Mari yn erbyn Dafy; a dous dim amheuaeth hefyd, na lise hi fod y wraig ddyfodol o Benyweun; er i bod hi'n gweud, nad elise hi ddim gyda Dafy, tyse uni pen yn our a'r nall yn arian iddo.

Cenfigenu oudd Betsi fod Mari yn myn'd o'i bl'au hi.

Wel, bid fyfno, fe auth Dafy a mishtir gyda e, un dwarnod, yn glou iawn wedyn, at wr Penyweun i setlo ag e am y stoc, a phob-peth fel yr oun nhwy ar y tir; lle byse ishe i hwnw neud ocshwn pan byse fe'n madel; ac fe ddouthon i gyd-ddiallwrieth daliedd yn od o glou.

Roudd yr hen wr a'r hen wraig oudd nawr yn Penyweun yn retero; ac roud e, nol y cytundeb nauth e a Dafy', i glirio mas pan deise Dafy' a'i wraig miwn; ac roud Dafy' i dalu iddo am hyny, ddou cant a hanner o byne.

Y peth nesa oudd caul cydsyniad y stiwart, ac fe lwyddodd mishtir iddi gaul e, gan iddo fe fyn'd iddi moyn yn lle Dafy'.

Beiti fish cyn Clyngeua digwiddodd y pethe hyn; a bore dy' ffair Clyngeua, roud priodas yn starto mas o Bryngwndwr Mowr tua Landeilo; mishtir a gwr Penyweun yn

fleuna, Dafy' a Mari wedyn, yna Jacob a morwn Penyweun, ac yn eia, Miss Maggie a fine.

Dymuniad Mari oudd y nghaul i a Miss Maggie yn y briodas; fe gafodd 'i rhwng bodd ag anfodd, ond fe gollodd barch mishtres wrth hyny, fe ddylse hi fod yn gwybod fod rhagor rhwng seren a seren miwn gogeniant.

Fyfe raid i mishtres byth y'n scoeno i, rown i'n dryched mor daliedd yn y briodas a neb, fyfno; rown i miwn shiwt newy' o frethyn gwalth ty hyfrydol sefse ar 'i ochor, a doud dim gwell na hyny gen mishtir 'i human.

Fe gyreuddson ni i Landeilo yn lled fore, bid fyfno; ond roud ugeine wedi cyrcedd

bid fyno; ond roud d ugeime wedi cyrcedd
yno o'n blan ni; a dyna lle'r own nhwy ar
hyd yr hewlydd, rhai yn ceisho prynu a
gwerthu 'nifled, ac erill yn ceisho cytuno
am weishon a morwnon.

Ffair gytuno, yn bena, yw ffair Glyngeua;
a dyna shwd mau hi'n ffair mor fore.
Wedi i ni gyreddi hyd y Coder Arms, roud d
yn rhaid ni gyd droi miwn fan hyny gen
mishtir; ac wedi myn i d miwn fe auth
mishtir oddwrtho ni at wraig y ty i ordro
ewart o ginhot, medde fe (?)

Fe ddouth y ginhot, bid fyno; ac wedi
hyfed hwnw, fe'i starson hi sha'r Eglws, ac
roudd y 'ffeirad yno yn y'n dishgwil.

Wedi dod i Dafy' a Mari yn right yn 'i
llefydd, fe ddechreuodd y 'ffeirad ar 'i was-
aneth; ac fe ddechreuson nhwynte'ch dou
grynu; a chrynu am y gore neuthon nhwy

**cyd a pharodd y gwasaneth; ac rown i, ar
y pryd, yn credu fod hyny yn un rhan
chono.**

Wedi i mishtir roi Dafy' a gwr Penyweun,
i roi Mari, ac i nhwynte ateb pobpeth ofon-
odd e fe gouddodd 'u bod nhwy'n wr ac yn
wraig, &c., ac wed'yn roud d yn rhaid iddyn
nhwy 'i ddilyn e i'r festri gaul seino'u henwe
wrth lyfr i bod nhwy'n briod. Allse dim
un o nhwy scyrfenu; ac yn lle scyrfenu'u
henwe, rown nhwy'n dod i lawr ar y llyfyr
bob gris grous; ond wrth neud hyny, fe
gafodd Mari lewyg, fel y buodd raid 'i
chario hi mas i gaul cwyr; a dyna ddi-
benodd y gwasaneth priodasol Dafy' a Mari.

Wedi Mari ddowad ati 'i hunan, ni euthon i gered tipyn ar hyd y dre, gaul gwel'd y ffair; ac erbyn hyn, roudde gwyr y gweithe wedi dowad yno'n lleibe mowr gyda'r trein. Y show wedi 'i hagog, y band yn whare, a'r showman ar y stadj yn bwyta cwm, ac yn hyfed oi', a mwg mowr yn dowad mas oi' ben a'i drwyn a'i gluste fe. Fe arosen ni spel fowr i ddryched arno gaul gwel'd a fydde fe'n flamc; ond wedi blino dishgwil yn ofer, "He," medde mishtir, "mau nhwy'n glefer hefyd! Hen dacle fel hyn sy'n rhebo dynon o'u harian yn y trefi mowr. Dowch i ni gaul myn'd nol i'r Coder gaul pobo lwnsh, mau nhwy siwr o fod yn ein dishgwil nawr, gwela i."

(I'w barhau.

.....

Gwas O War Llandeilo / Rhan XIV / Crasfa! / 15 Ionawr 1898 / Papur Pawb

GWAS O WAR

LLANDEILO

XIV.—CRASFA!

Anwil Mishtir Golygydd,

I dori'r stori'n fyr, fe euthon ni nol i'r Coder gyda mishtir i gaul pobo lwnsh fel y gwedodd e; ond ffuon ni ddim fowr o dro yno, oblegid roun ni nol yn Bryngwndwn erbyn cino.

Roudd y parti priodas ar gino i gyd yn y parwr, ond fi a Jagob; gorfed i ni'n dou newid y'n dillad, a chwaryd yn cino arferol yn y gegin fowr; ac wed'yn fyn'd beiti'r nifled.

Miwn wythnos wed'yn roudd Dafy a Mari yn llauw'r teitle, 'Y gwr a'r wraig o Ben-

yweun," gan adel Jacob a finne yn was pena ac ail was Bryngwndwn Mowr. Roudd Dafy wedi cyredd i boint, ac roudd e'n ddedwidd, ac roudd Mari, os nad wedi 'i gyredd e, yn ddedwidd hefyd, ac felly'r win 'u gadel. Fe lanwyd y bwlcbe nauth y briodas yn y gwasanethynon rhwyshap, gan mishtir, trwy dynu Master Tom a Miss Jane o'r ysgol.

Fe dynwyd Master Willie o'r ysgol yr un pryd hefyd; ond caul myn'd yn asistant miwn shop ddraperi yn Landeilo nauth e; ac yno gweles i e ddwetha.

Bid fyno, fe auth pobpeth yn 'i flan eto yn oilyn am flynydde, heb i ddim o sylwedd gwmryd lle yn y'n hanes i; ond un dwar-ncd, miwn beiti dair blynedd wedi'r degwidd-iade yna, fe ofynodd Miss Maggie i fi wrth odro, fi a hithe oudd yn godro fynycha

odro, fi a hithe oudd yn godro fynycha rawr :

“Odych chi, John, yn myn’ d sha ffair Gwyl Barna dy’ Llun?”

“Odych chi’n mynd ‘te?” oudd yr ateb.

“Odw,” medde hi miwn rhwy ddull ymddiriedol.

“Wel, odw inne hefyd te,” meddwn inne, yn falch dierth i bod hi wedi awgrymu licse hi gaul y nghwmpni.

“Shwd newch chi es clwith mam i ych bod chi’n myn’ d i’r ffair, cha i ddim myn’ d i yno genti?”

“O ! fi na i’n bruon,” meddwn i, “fe gewch chi ei chochwyn hi’n gynta cyn gofyna i i’ch tada am gaul myn’ d ; a chyn bo fe wedi caul amser i weud with y’ch mam i, fe fydda i weud newid ac ar hanner y ffordd i Landeilo.”

Yr unig ateb i hyna oudd drychiad serchog a phleg ei bod hi’n folon.

Tua phrydnawn dy’ Iou, buodd y sharad yna, gwela i.

Erbyn bore dy Llun, oudd y whant myn’ d i’r ffair wedi dwblu a threblu lower gwaith drosodd arna i ; fel yr own i yn benderfynol o fyn’ d i’r ffair, doued a ddelo.

Bore dy Llun, bid fyno, dyma Miss Mag-

gie yn 'i chochyn hi sha'r ffair yn shirew o grand; ac heblaw hyny, rown i'n 'i gwel'd hi'n un sobor o lan—glanach na neb weies i cynt na chwedyn.

Roudd hi nawr beiti d'dounaw oud, ac yn 'i phreim, yn joiant fowr o ferch.

Roudd dim ond dryched arni yn ddigon i hala dyn pren i neido mas o'i sgidie; a phwy ryfedd, achaw mod hi a chwmini o whant myn'd i'r ffair i fod yn gwmpni iddi? Pan cudd hi'n myn'd, fe ddouth mishtres iddi hebrwn hi hyd glwyd y clos,

gaul 'i sharso hi beido cwmpnia a neb ond rhwy'n fel un o fechgyn Glantowy ne rhwy fferem fowr arall. Wedi iddi hi fyn'd nol i'r ty, fe ddouth mishtir mas gaul myn'd am dro fel arfer dros y tir; ac rown i'n ei ddishgwil e'n fowr iawn; ac fe eis i gwrdd ag e.

"Mishtir," meddwn i, "dewch i fi fyn'd i'r ffair heddi, fues i ddim yn ffair Gwyl Barna arioud?"

"Beth wyt ti'n moyn 'no? Dous 'no ddim i ti wel'd 'no heddi'n ots nag arfer, ond fod 'no fwy o wyr y gweithe nag arfer; ond falle, ta dy wado di neiff y rheiny," oudd yr ateb.

"O!" meddwn i, "fe na i o'r gore a nhw os gwedith un o nhwy ddim wrtho fi gwasga i e nes bo'i faidd e mas."

"Gore, gore, te; cera di, a nhyngo ti a nhwy te; ond cofia ddowad nol yn gynnwys a ti gaul myn'd bore bach foru sha Chi'rychen i moyn calch."

Rown i miwn cwarter awr wed'yn yn ei gwadnu hi tua ffair Gwyl Barna, yn deidi fy nillad, yn smart y'n nhrewad, a llawen y nghalon.

Rown i miwn byr amser yn Landeilo, ac wrth ddowad lawr dros hewl y ceffyle oco, widdoch; fe welwn show fowr ar y scwar o flau y Victoria, a thrwp mowr o ddynon o'i blan hi, yn dryched ar y showman yn tynu llon'd pasged o wye mas o wishcers rhwy hen ddyn. Roud Miss Maggie yn un o'r rhai oudd yn dryched arno; ac felny cheis i ddim trafferth iddi ffeindio hi mas; ac roud hi'n falch dienth i ngwel'd i wedi dowad ar 'i gol hi.

“John,” medde hi yn syn a serchog, “shwd cesoch chi ddwad?”

“Na hidiweh naws,” meddwn i, dan glosio iddi hechor hi, “dowad oudd y point mwyaf.”

“Ie,” medde hi dan wenu, “ond fe lieswn i tyse chi wedi dowad yn gynt, i chi gaul gwel’d y showman yn tynu’r wye o wishcers yr hen ddyu ’no, roudd e’n grand sobor.”

“Ni fynwn wel’d be sy gydag e nawr te,” meddwn i, “dowch miwn.” A miwn euthon ni; ond cheiso ni wel’d fowr ’no. Roudd e’n gneud mwy o show mas ar y stadj pag oudd o’n neud miwn; doudd hi ddim ond where Pwnsh and Judy.

Wedi dowad mas o’r show ni euthon beiti’r dre gaul gwel’d beth welse ni; a chyn hir, fe ddeuthon at dent photographer; ac wedi dryched spel ar y llunie oudd ganto tu fas ar ’i dent, mi euthon miwn i gaul tynu’n llunie gyda’n gily’.

Wedi caul y llunie a thalu am danyn nhwy, rown i'n teimlo'i bod hi erbyn hyn yn rhwyr bryd i ni gaul pobo lymed o rhwybeth i hyfed; ac oddno euthon ni, ad i'r Blaer Lion.

Roudd yno ddim lle ar y llawr i ni, roudd gwyr y gweithe yno'n llon'd y lle; ond roudd digon o le ar y llofft, medde'r forwn, ond digon prin o le oudd yno wed'yn.

Roudd gwyr y gweithe bron llanw'r lle hyny hefyd. Roudd rhai o nhwy a chariade gyda nhwy, ac erill heb ddim. Bid fyno, wedi caul lle i ddodi'n hunen lawr, i gaul bod fel rhwyun arall yno, fe alwes am beint o ddiol i fi a glased o win i Miss Maggie, ond cyn i ni gaul amser iddi hyfed nhwy, dyma un hen bewc bach yn gwyn i Miss Maggie:

"Gweddw ne briod yw'ch gwif chi, mod i mor ewn a gofyn?"

"Wel, dyna gownt ne beidio," medde hi wrtho i, ac fe wharddodd am 'i ben e.

"Dyw e' ddim ots i chi, achau, pun; meidia fusnes dy hunan," meddwn i wrtho.

"Beth wyt ti'n whilia, rhen Jag, myn di whiraf fach?" gofyne fe.

"Dere di'n agos yma," wedes i wrtho, "fi dy wasga i di nes bo dy faidd di ma's."

"Meinda dy lycad te," medde fe, a chyda hyny, roudd e'n y mwrw i ar y'n llygad de nes own i'n gwel'd y tan mwya wedes i arioud; a chyn i fi ddiall beth oudd wedi digwidd yn iawn, roudd e wedi'n fflwian i nes own i yn waud ac yn anialwch i gyd.

Roudd y cwblw drosodd miwn mynyd, ac ynte yn myn'd, ond with fyn'd,

"Dyna, rhen Jag," medd fe, "os bydd isha cwpl arnat ti yto rhwpryd, hal di moyn i."

Roudd y lle wedi myn'd trwy gily no, a'r mynwod yn screchen, "Hwbwb, Murder."

Pan agores i un llygad (roudd y nall yn tchoc) roudd Miss Maggie yn sefyli gerllaw i fi mor wyned a'r galchen; ac yn dryched arna i gyda chwaint o scorn a tyse 'i mam yno yn 'i lle hi.

"O! rhen lwdwn. Cerwch! cerwch!" medde hi. "Gadel i hen bilcyn felna'ch wado'chi? Cerwch! cerwch! o ngolwg i byth!"

Roudd hi'n myn'd gyda'r gair byth, a dyna'r olwg wetha byth geis i arni.

(l'w barhau.)

GWAS O WAR

LLANDEILO

XV.—GADEL Y 'LAD AM Y GWEITHE.

Dei, dei, achan, pan bo i'n cofio am y ffair Gwyl Barna hyny, rw i'n myn'd yn sal ddi-erth! A phwy ryfedd? Fe geiso i shwd shomedigeth sobor. Rown i wedi pino nhynged am y nyfodol ar yr hyn 'nelswn i y dwarnod hyny.

Yn fyn, rown i wedi meddwl sbarad a Miss Maggie am beiti dori fyny ein carwr-ieth ddirgel gyda phriodas, ac yn fawr yn hyder y cawswn i hi yn folon; ac roudd pobpeth hyd nes i ni fyn'd miwn i'r Blac Lion yn gweyd wrtho i mod i'n hyderu gyda holl sicrwdd gobeth.

Ond beth dal sharad, achan? Nid fel rown i'n meddwl roudd pethe i fod; roudd yn rhaid i fi, fel pobun arall ar y ddeuar yma, dderbyn a byw yn ol y blaned oudd i fi.

Rown i, ac rw i eto hefyd, ran hyny, yn anfolon mai dyna shwd blaned oudd i fi fod.

Fe fuodd rŷid i fi'r dwarnod hyn, pid fyno, odde caul yn wado gen un allswn i wasgu e nes byse fe mor fflat a thene a thorth geirch, tyswn i'n caul gafel yndo; ond fe gym'rodd ofol na cheiso i ddim.

Rhwng pobpeth, rown i bron a thori nghalon, ac mor hurt fel na wyddwn i ddim beth own i'n neyd na pheth ddylswn i neyd, ac felny bues i nes i'r tafarnwr gydio yn y mraich i gaul myn'd a fi i'r back i ymolch; ac i ymolch gydag e yr eis. Ond dw i'n cofio fowr ddim arall ddigwiddodd y dwarnod hyny wed'yn, heblaw i fi gyredd nol i Bryn-

gwndwn Mowr wedi iddi dwlli'n nos.

Roudd Jagob ar y clos yn y nishgwil, ac roudd e'n llawn cydymdeimlad; ond diwedd 'i stori e oudd fod mishtir am y ngwel'd i yn y ty.

Doudd fowr whant arna i fyn'd ato, ond rhwng bodd ac anfodd, miwn ato yr eis. Doudd dim o' ofon e arnai, widdoch; oblegid roudd e'n od o daliedd a charuedd stil; ond roudd i hofon hi arna i, a dyna oudd yn y nior i fyn'd i'r ty.

Pan eis i miwa i'r gegin fowr, fel own iwso gneyd stil, roudd mishtir a mishtres yn y parlwr, ond wedi iddyn nhwy gaul gwbod mod i wedi cyredd, dyma nhw'n dowad ata i.

"John, achan," medde fe, pan welodd e fi, "fe fyse'n well i ti rondo arna i, weld di, lower iawn na myn'd i'r ffair, ond dyna,

diolch i'r mowredd dy fod di'n fyw."

"Yn fyw siwr!" medde hi yn ddynsherus o grac, "fyse dim withryn o ots tyse fe'n caul 'i ladd a na fyse? Beth oudd e'n ddishgwil gaul am scwto 'i gwmpni ar 'i well? Dial Duw arno oudd hi, a ie?"

Dyna'r pwff cynta o'i hareth fflamog hi, tyse hi yn 'i gadel hi ar hyna, fe fyswn yn madde iddi'n glou, ond gan na nauth, faddcua i byth iddi.

Yn ystod 'i hareth fe narluniodd i fel rhwyfath o greadur rhwng mochyn a mwn-ci, rhwy fil o filltiroudd ishlaw iddi hi a'i merch miwn pob ystyr.

Danododd i fi hefyd bethe nad ouddwn i na neb o nhylwith yn euog ohonyn nhwy; ac i ddibenu ei dial, a'i dirmyg arna i, fe dynodd y'n llun i mas o'i phoced (wn i ddim

shwd roudd hi wedi dwad o hyd iddo), .

“Ac,” medde hi, gan dala'r llun o mlan i “y ti'r labwst dwl yn tynu dy lun gyda y' merch i, aie? Gweli di e? Ta p'un ne weli di e ne beido, weli di ddim ohono fe ragor.”

Gyda'r gair roudd y llun ar y tan a hithe'n doddi throud arno, ac yn wherthin fel rhwy hen eirish oco, ac wed'yn yn gweyd wrtho i,

“Gad di i fi glowed dy fod di'n sharad a merch i eto, fi na i run peth a tithe.”

“Dyna, dyna, los,” medde mishtir yn erfyniol, “dewch hi nawr wir, 'dewch hi nawr wir; a tamed o swper iddo i fi gaul sharad
”

“Dw i ddim yn 'i moyn e,” meddwn i'n sosi, dan fyn'd mas a'u gadel nhwy yno.

Fe dreiodd mishtir gaul gen i aros, ond myn'd nes i yn llawn o ddigofaint whery a phenderfyniad i ddial arnyn nhwy gyd yno y cyfle cynta geiswn i neud hyny.

Bore dronouth, gyda phip y dydd, fe ddouth mishtir i alw arna i i fi gaul myn'd i moyn calch sha Cilyrychen, ac i roi arian i fi gaul talu am dano. Dyna oudd 'i fusnes e a fi'r nosweth cynt tyswn i'n aros i rondo arno.

Fe godes i ar 'i gaish e, bid fyno, ac fe ddodes y gaseg, Dol, yn y cart, a Bocser o'i blan hi'n barod i gochwyn yn glou; pryd hyny fe ddouth mishtir ata i eto i'n moyn i'r ty gaul tamed o frecwast cyn myn'd, ond fi wedes i wrtho nag own i ddim yn 'i moyn e.

"Dere," medde fe, "i ti gaul tamed i fyn'd geno ti 'te."

"Dw i'n moyn dim," atebes i'n eitha shosi.

"Dei anwil, achon!" medde fe'n grac, "ous dim o ti gaul myn'd i'r calch heb fwyd o yma, aros."

Gyda'r gair "aros" yna, roudd e'n myn'd i'r ty, yna yn dowad mas a thorth lechwan haidd a thoc o gaws Cymru gydag e i fi, gan weyd, "Rhaid i ti, John, gwm'ryd yr rhai'n gyda ti."

"Wel," meddwn i, "os ous rhaid, dodwch nhwy yn y cart."

"Rhaid," medde fe yn swta, gan ddodi'r dorth a'r caws yn y cart, ac yna myn'd nol i'r ty.

Nawr fe redodd point mowr o ddial arnyn nhwy i mhen i—point gwreiddiol—a phoint

oudd e hefyd, y buodd sharad a wherthin mowr iawn am 'i ben e trwy'r holl ardal-oedd i gyd; ac nawr, mau son am dano yn y gweithe, yn shir Forganwg. Wel, bid fyno, wedi i mishtir fyn'd i'r ty, i gaul cario mhoint mas, fe gyreuddes iue forthwil a houlen o ben wal fflat y sgubor, ac fe houles y caws a'r bara—un ar y nall ar ddrws y cart; a dyna lle ceiso nhwy fod hyd nes i mishtir eu cwm'ryd nhwy ymeth y nosweth hyny, wedi i fi ddowad nol o'r calch, fel dwedir.

Pan welodd mishtir beth own i wedi neyd a nhwy, fe wedodd mod i'n pechu yn erbyn Rhaglunieth a byse'n well i fi fadel o 'no cyn byswn i'n tynu barn ar y mhen ac ar y lle.

Rown i'n falch o'r cynnyg, yn rhy falch iddi adel e fyn'd heibo; fel'ny, fe adewes bobpeth fel roudd er ar y gair, ac ymeth a fi i lofft y beudy, lle rown i'n cysgu, i gyr-edd y nillad; ac miwn hanner awr wed'yn, rown i gyda Nanti yn Bryngwndwn Bach yn allwis v nghwdyn ffor' buodd hi arna i gyd.

Fe fues yno bythefnos cyfan. . Erbyn

hyny, roudd olion y drinieth geis i yn y ffair wedi gwella'n oilyn; ac rown i wedi gneyd y meddwl fyny i fyn'd i'r gweithe; ac ar ben hyny o amser, yno yr eis. Roudd Nanti, yn ystod hyna o adeg, wedi gweyd carne o bethe dynsherus am mishtres a'i thylwith, &c., ond pethe oun nhwy nad ous gen i harin i feddwl am danyn nhwy weuthach iddi scyrfenu nhwy.

Fe wedodd un peth, bid fyno, fuodd yn flinder diogel i fi ar y pryd; hyny yw, fe wedodd fod gen mishtras frawd, ac fod y brawd hwnw wedi dod i'r gostegion mas i briodi mami dreian; ond iddo, miwn canlyniad i rhwy gelwidde o eiddo mishtres, ffoi tua rhwyle dros y moroudd yn mhen draw'r byd, o'r enw Catarogws, bore'r briodas. A dyna, mau'n debyg, fuodd yn achos o ange i mami, dreian.

Wel, i adel pethe felna, pan gochwynes i a mhac o war Landeilo am y gweithe, yn amcan i wrth gochwyn oudd treio caul gwaith yn un o batches ne waith harn y Gwter Fowr; ond yno, fe gwrddes a Dafy, hen was Bryngwndwn, widdoch, ar yr hewl yn feddw ac yn moyn yn nhreio i, ac fe farnes i 'i fod e ne fi yn ddigon yno, a chychwynes hi eto tua gwaith y Cyfyng. Rown i is ar hewl y Graigarw (Ystalyfera) cyn nos, ac yma fe gwrddes a ffrynd—hen was Bryngwndwn eto—a neb llai na'm hen ffrynd Bili Morgans gynt. Roud e'n briod ac yn byw yn y lle, a chydag e ceis i lodgin, ac efe fu gyda'r gaffer yn moyn gwaith i fi'n y gwaith harn lle bues i wed'yn am flynydde mowr.

Mae gwyr y gweithe yn ddynion od o daliedd ar y cyfan. Y peth mwya gen i yn 'u herbyn ar y cyntaf 'u bod nhwy yn myn'd

gormod o sport ar y ngost i.

Fe adrodda i un scetshen fach i chi nawr shwd oun nhwy gneyd a fi pan ddois ffor hyn gynta.

Pan ddois i a mhac o'r "Gwter Fowr" (Brynamman nawr) i'r Graigarw gynta, fe alwes am beint o ddiod miwn tafarn yn nhop Cwmtwrch o'r enw y George; roudd yno lon'd y ty, bron, yn hyfed 'i chalon hi, a'r tafarnwr yn craco jocs yno gyd nhwy.

Wedi i'r forwn ddwad a'r peint i fi, ac i finne dalu iddi am dano, ac yfed o tracht ohono; dyma'r tafarnwr yn gofyn i fi:

"Dyn ar 'i drafel ie fe?"

"Ie," meddwn i.

"O b'le, mod i mor ewn a gofyn?"

"O war Landeilo," meddwn i eto yn ddi-feddwl-drwg am dano.

Roudd pawb yno erbyn hyn yn grondo

"Hy," medde fe eto, "mau gwar Llandeilo yna yn rhwym o fod yn un fowr iawn. Mau ugeine'n dod o'no bob blwyddyn."

"Odi," meddwn i, "mau o Llandeilo i Langadog."

"Dethoch chi'n gwmws o'no heddi?"

"Do," atebes i, heb feddwl 'i fod e am neyd un sport yn y byd.

"Wel," medde fe yn seriws iawn, "yr ych chi wedi camu shew ar y ffordd yn rhywle te?" Yn dilyn hyna dyma "Ha, ha, ha," gen yr hyfwyr nes oudd y ty'n crynu i gyd.

Gneyd sport ohono i roudd, oblegid mod i'n wargam; wedi diall hyny, fe godes y mhac ac ymeth a fi, fel rw i'n gneyd a chithe nawr.

••JOHN JONES,